Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>29 EBRILL 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>29 APRIL 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarlllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno ar gyfer eu cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2019.

**4** **COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **YR YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH – ADRODDIAD BLYNYDDOL** (Tudalennau 33 - 54)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR OSTWNG YR OEDRAN MYNEDIAD AR GYFER YSGOL HENBLAS** (Tudalennau 55 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**8** **MODERNEIDDIO YSGOLION - ADDYSG OL-16** (Tudalennau 81 - 108)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Prif Swyddog Datblygu (Tai) (ar gyfer eitem 9)<br>Rheolwr yr Uned Cefnogi Teuluoedd (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones (o eitem 13 ymlaen), Dylan Rees |

DRAFT

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Richard Dew ddatgan diddordeb personol oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 13 ar y rhaglen.

Fe wnaeth y Cynghorydd Dylan Rees (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag eitem 13 ar y rhaglen.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2019 a 7 Mawrth, 2019 (cyfarfod arbennig) i'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2019 a 7 Mawrth, 2019 (cyfarfod arbennig) fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Ebrill, 2019 i Tachwedd, 2019.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn –

**Eitemau newydd i'r Rhaglen Waith -**

- Eitem 3 – Contract Rheoli Gwastraff (cymeradwyo'r amserlen, y broses a'r gyllideb ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff o fis Ebrill, 2021 ymlaen) i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ebrill, 2019.
- Eitem 11 – Contract Rheoli Gwastraff (Cymeradwyo'n derfynol y dull cyflwyno gwasanaeth ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff o fis Ebrill, 2021 ymlaen) i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 17 Mehefin, 2019.
- Eitemau 12 ac 19 – Arolwg AGC o'r Gwasanaethau Plant – y Pwyllgor Gwaith i ystyried adroddiad cynnydd Chwarterol ar y Cynllun Gwelliant yn ei gyfarfodydd ar 17 Mehefin ac 16 Medi, 2019.
- Eitem 21 – Cyllideb 2020/21 (cynigion drafft cychwynnol ar y Gyllideb ar gyfer ymgynghori arnynt) i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 11 Tachwedd, 2019.
- Eitem 23 – Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 2, 2019/20 i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd, 2019.
- Eitem 24 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Chwarter 2, i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 26 Tachwedd, 2019.
- Eitem 25 – Anableddau Dysgu: Trawsnewid Cyfleoedd Dydd, i'w ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Tachwedd, 2019.

Dywedodd y Swyddog, yn amodol ar eu cadarnhau, ei bod yn bosib y bydd rhaid cynnwys eitemau newydd yn ymwneud â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar y Rhaglen Waith hefyd.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Ebrill i Tachwedd, 2019 fel ei cyflwynwyd.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3, 2018/19

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3, 2018/19.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol fod y perfformiad yn erbyn y mwyafrif o Ddangosyddion Perfformiad ar ddiwedd Chwarter 3 ar darged, ac mae'n arbennig o dda o gymharu â'r perfformiad yn Chwarter 3 2017/18. Mae tri Dangosydd Perfformiad wedi'u cofnodi fel rhai sy'n tanberfformio, ac mae dau o'r rheini yn y Gwasanaethau Oedolion – PM20a: canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi, oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach, a PAM/025 (PM19): cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+, ac roedd un dangosydd - PAM018 – yn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac mae'n ymwneud â chanran yr holl geisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu mewn pryd. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif resymau am y perfformiad is na'r targed yn y meysydd hyn a'r camau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith i adfer y sefyllfa ym mhob achos.



DRAFT

Ar gyfer presenoldeb yn y gwaith, roedd Chwarter 3 yn dangos sgôr o 2.69 dyddiau o waith a gollwyd fesul pob aelod staff llawn amser, sydd bron union yr un sgôr ag yn Chwarter 3 2017/18. Mae'r perfformiad yng nghyswllt absenoldeb salwch yn y sector ysgolion cynradd yn dangos yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio; mae Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Dysgu yn darparu cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer y 10 ysgol gynradd sydd â'r lefelau uchaf o absenoldeb salwch.

O ran Gwasanaeth Cwsmer, mae darparu ymatebion ysgrifenedig ar amser i gwynion yn dal yn broblem yn y Gwasanaethau Plant, er bod y Gwasanaeth wedi rhoi mesurau penodol mewn lle i wella ei berfformiad wrth ymateb i gwynion. Fe wnaeth presenoldeb y Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol gynyddu unwaith eto yn Chwarter 3 i 29k o ddilynwyr, fel y gwnaeth nifer y defnyddwyr cofrestredig ar AppMôn – mae nifer y defnyddwyr wedi cynyddu dros 1,700 ers diwedd Chwarter 2 i 6,607 ar ddiwedd Chwarter 3. Ni ellir darparu unrhyw ddata am gwynion gan gwsmeriaid tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu ynghylch ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter, oherwydd absenoldeb tymor hir y swyddog sy'n casglu'r data. Mae'r her yn parhau i sicrhau bod perfformiad positif y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor yn cael ei gynnal yn Chwarter 4, a bod meysydd o danberfformiad yn derbyn sylw.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Cadeirydd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mawrth, 2019 lle trafodwyd adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3, fod y Pwyllgor wedi nodi bod y perfformiad yn ystod Ch3 yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn dda ar y cyfan, gydag ychydig o feysydd sydd angen rhagor o sylw – yn y Gwasanaethau Cynllunio, Dysgu ac Oedolion. Nododd y Pwyllgor y lefelau absenoldeb salwch hefyd gyda'r UDA yn argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i wella presenoldeb yn y gwaith yn y Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ac o fewn ysgolion cynradd yn y Gwasanaeth Dysgu. Er bod y Pwyllgor yn bryderus am yr amser a gymer y Gwasanaethau Plant i ymateb i gwynion ffurfiol, fe nododd effaith bositif y mesurau lliniaru a roddwyd mewn lle yn ddiweddar. Roedd y Pwyllgor wedi penderfynu nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau ynddynt i'r dyfodol fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ac argymell y mesurau lliniaru ar gyfer y meysydd hynny sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid, er yn derbyn y bu problem gydag absenoldeb salwch mewn ysgolion cynradd, fod cynllun gwella salwch yn cael ei weithredu; ac mewn perthynas â'r perfformiad is na'r targed yn y Gwasanaeth Cynllunio wrth benderfynu ceisiadau cynllunio mewn pryd, dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod yna ffactorau penodol sy'n cyfrif am y gostyngiad hwn yn y perfformiad, fel mae'r adroddiad yn ei ddangos.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y Gwasanaethau Plant yn darparu ymateb ysgrifenedig prydlon i'r holl gwynion a dderbynnir. Mae'r Gwasanaeth wedi addasu ei weithdrefnau ymateb i gwynion ac mae hyn yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae ymateb cynt i ddatrys cwynion wedi gostwng nifer y cwynion, ac os nad yw'n bosib ymateb o fewn yr amserlen, mae'r Gwasanaeth yn ceisio darparu eglurhad, er mwyn cael cytundeb yr achwynydd i ymestyn yr amserlen ac i gadw cyswllt gyda'r achwynydd. Mae tri chŵyn a dderbyniwyd yn fwy diweddar oll wedi derbyn ymateb ar amser.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch3 2018/19, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, a derbyn y mesurau lliniaru mewn perthynas â'r meysydd hynny a amlinellir yn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn nodi'r cynnydd hyd yma yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Adroddodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, wrth symud ymlaen, y cytunwyd i gau i lawr y Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) cyfredol ac i gynhyrchu Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer 2019-22. Bydd hwn yn ymgorffori'r ddau faes ambr nad ydynt wedi'u cwblhau'n llawn o'r CGG ynghyd â'r 14 maes i'w datblygu a nodwyd yn adroddiad ail-arolwg AGC ym mis Rhagfyr 2018. Yn ogystal, bydd y Gwasanaeth hefyd yn cymryd y camau a ddisgrifir yn yr adroddiad mewn perthynas â hybu cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal; adolygu polisi a sicrwydd ansawdd, parhau i gynnal ymweliadau Laming a chryfhau perthnasau a threfniadau gweithio ar y cyd.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod gwaith yn mynd yn ei flaen yn gyflym ar ddatblygu Cartrefi Grŵp Bach a'r pecyn Gofalwyr maeth newydd, dau beth a ddyluniwyd i gynyddu'r dewis o leoliadau. Mae'r pecyn Gofalwyr Maeth sy'n cynnig buddion ehangach i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod yn cael ei farchnata ar hyn o bryd, a daw'r newidiadau i rym ym mis Ebrill, 2019.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Mawrth, 2019 lle trafodwyd adroddiad cynnydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gan nodi y byddai'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn cael ei amnewid am Gynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd, roedd y Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed trwy gydol y Cynllun Gwella Gwasanaeth, ac fe nododd hefyd fod angen cynnal momentwm y gwelliant trwy gydol y Cynllun Datblygu Gwasanaeth. Nododd y Pwyllgor ymhellach y datblygiadau gyda'r Cartrefi Grŵp Bach a'r pecyn Gofalwyr Maeth, a chan gofio bod dydd Mawrth 19 o Fawrth yn ddiwrnod Rhyngwladol Gwaith Cymdeithasol, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu diolch i Weithwyr Cymdeithasol yr Awdurdod am eu hymdrechion a'u hymroddiad mewn amgylchedd sy'n aml yn heriol. Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon gyda'r camau a gymerwyd i fwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd gyda hyn a chyda gweithredu gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant, a'i fod hefyd yn fodlon i'r Gwasanaeth symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod cau'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn marcio diwedd cyfnod arwyddocaol i'r Gwasanaethau Plant yn y Cyngor, gan gydnabod hefyd y gwelliannau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn a gwaith staff y Gwasanaeth i wneud hynny'n bosib. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach fod y cynnydd a wnaed yn ystod y CGG yn rhoi sail gadarn i fynd â'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth yn ei flaen gan felly gynnal y broses wella i'r dyfodol.

**Penderfynwyd cadarnhau –**

- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd, a'i fod hefyd yn fodlon i'r Gwasanaeth symud ymlaen â'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd a fydd yn cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol.**
- **Bodd y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

## 7. POLISI TALIADAU TAI DEWISOL (TTD)

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i Bolisi diwygiedig ar gyfer y Cynllun

Taliadau Tai Dewisol Lleol am 2019/20. Rhoddai'r adroddiad wybodaeth am weithrediad y TTD yn ystod 2018/19 a p'un a oes angen unrhyw newidiadau i'r dyfodol ar y sail honno.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod TTD yn darparu "cymorth ariannol pellach' i hawlwyr gwrdd â'u costau tai, ar ben unrhyw fudd-daliadau lles eraill y maent yn eu derbyn o bosib, os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod cymorth ychwanegol o'r fath yn angenrheidiol. Mae'n rhaid i'r holl ddyfarniadau TTD gael eu gwneud o fewn y cyfyngiadau arian cyffredinol fel y pennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Bydd yr AGP yn rhoi swm i'r Awdurdod Lleol bob blwyddyn tuag at weinyddu'r cynllun a gall awdurdodau lleol ychwanegu hyd at 150% at gyfraniad y Llywodraeth; fodd bynnag, byddai'n rhaid i daliadau ychwanegol ddod o gronfeydd y Cyngor ei hun. Yn dilyn y mesurau diwygio lles ym mis Ebrill 2013, fe wnaeth y galw am TTD gynyddu'n aruthrol ond mae i weld yn lleihau erbyn hyn. Roedd grant yr AGP i'r Cyngor yn 2018/19 yn £153,307 ac roedd £142, 432 o hwn wedi'i wario erbyn 1 Mawrth, 2019. Bu tanwariant yn y grant yn 2017/18 a derbyniodd yr Awdurdod gryn sylw negyddol am hyn oherwydd, o dan reolau'r cynllun, mae'n rhaid iddo ddychwelyd unrhyw arian sydd heb ei wario o'r dyraniad i'r AGP. Er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r gyllideb TTD gan gynnwys dyrannu'r holl gyllideb yn llawn ac er mwyn ymateb i unrhyw addasiadau yng nghanllawiau'r AGP, mae'r Cyngor yn adolygu a phan fo angen, yn addasu ei bolisi TTD bob blwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod polisi'r Awdurdod wedi cael ei newid y llynedd i ddarparu cymorth efo clirio ôl-ddyledion rhent, lle roedd hynny'n rhwystr i bobl symud i lety mwy addas. Mae profiad yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod angen datblygu'r polisi ymhellach yn hyn o beth er mwyn cefnogi pobl i aros yn eu tai, lle tybir bod y denantiaeth yn gynaliadwy, trwy gyfrannu at dalu dyledion rhent lle bo hynny o fudd i'r hawliwr. Dyma'r unig newid y bwriedir ei wneud ar gyfer 2019/20 a manylir ar hyn ym mharagraff 2.10 y polisi.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, fod oddeutu £150k o grant yr AGP yn 2018/19 DWP wedi'i wario bellach.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2019/20 a'r blynyddoedd dilynol fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad, gan nodi y bydd y cynllun a gymeradwyir yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol ac y bydd yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor Gwaith dim ond pan fydd angen ei ddiwygio yn y dyfodol.**

## 8. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn ymgorffori Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod 2019 i 2049.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod Cynllun Busnes y CRT yn ffurfio'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc tai y Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn dangos sut daw'r Cyngor â'i holl stoc i fyny at Safonau Ansawdd Tai Cymru (mae yna dal rai eiddo sydd wedi ei categoreiddio fel "methiannau derbyniol"); sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal SATC a rhagori arnynt, a'r buddsoddiad sydd ei angen i gynyddu'r stoc tai. Trwy'r CRT, mae'r Cyngor yn berchen ac yn rheoli 3,819 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys ar hyd a lled yr ynys. Dros gyfnod y Cynllun Busnes, bydd y stoc yn cynyddu i dros 5,000 o unedau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod Cynllun Busnes y CRT yn rhoi gweledigaeth bositif ar gyfer dyfodol stoc tai'r Cyngor a chymeradwyodd y Cynllun Busnes i'r Pwyllgor Gwaith.



DRAFT

Rhoddodd Bennaeth y Gwasanaethau Tai ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith trwy gadarnhau y bu rhai newidiadau yn y ffigurau, a chawsai'r rhain eu cylchredeg i'r Aelodau yn ystod yr wythnos. Mae blwyddyn gyntaf y Cynllun Busnes yn seiliedig ar gyllideb 2019/20 a gafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Chwefror, 2019. Yn y cyfnod ers mis Chwefror, canfuwyd wrth gysoni'r ffigyrau fod rhai elfennau wedi llithro gan arwain at rai newidiadau yn arbennig i'r ffigyrau ar gyfer adeiladu tai newydd ym Mlwyddyn 1 y Cynllun, a chanlyniad hynny yw bod £2m yn ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer Blwyddyn 1. Mae hyn wedi arwain at fymryn o gynnydd yn y lefel benthyca, ac ym Mlwyddyn 1 bydd cronfeydd wrth gefn y CRT yn talu am hynny. Mae'n fwriad yn y Cynllun Busnes i ddangos hyfywedd y Cyfrif Refeniw Tai dros y cyfnod 30 blynedd, a'r flaenoriaeth yw cynnal a rhagori ar Safonau Ansawdd Tai Cymru a chynyddu'r stoc tai gan felly roi hwb i'r economi leol wrth i'r Cyngor weithredu ei raglen datblygu tai.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo Cynllun Busnes 2019-2049 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019-2020 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2019-2020 fel y nodir yn y Gyllideb Cyfalaf.**
- **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Aelod Portffolio Tai, Pennaeth y Gwasanaethau Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i gytuno dyluniad a geiriad terfynol y Cynllun Busnes 2019 – 2049, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

## 9. CYMERADWYO STRATEGAETH GOMISIYNU A CHYNLLUN GWARIO GRANT Y RHAGLEN CEFNOGI POBL

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn fenter fframwaith polisi a chyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yn gysylltiedig â thai i amrywiaeth o grwpiau o bobl sydd yr un mor fregus â'i gilydd. Nid yw'r gwasanaethau yn cynnwys ariannu costau llety na chostau gofal nac iechyd. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyfuno Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a'r Grant (Gorfodaeth) Rhentu Doeth Cymru, bydd pob un o'r tri grant yn dod o dan yr enw grant Cymorth yn Gysylltiedig â Thai o fis Ebrill, 2019 ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyfuno 7 o grantiau unigol eraill o dan yr enw Rhaglen Grant Plant a Chymunedau, ac o 1 Ebrill, 2019 bydd y rhaglen honno'n cyfuno'r grantiau unigol sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 1.4 yr adroddiad.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio pa mor bwysig ydyw bod y grant yma'n parhau ar yr un lefel, neu ar lefel uwch hyd yn oed, er mwyn cynnal y gefnogaeth i rai o unigolion a theuluoedd mwyaf bregus yr Ynys.

Dywedodd y Prif Swyddog Datblygu (Tai) fod yr hinsawdd bresennol yn heriol yn ariannol, ac mae ansicrwydd hefyd ynglŷn â'r fformiwla ar gyfer ailddosbarthu cyllid Cefnogi Pobl. Pan gafodd y fformwla ei hadolygu yn 2012/13 a 2013/14 gwelwyd y cyllid ar gyfer awdurdodau Gogledd Cymru yn lleihau 23% o ganlyniad dros y 6 blynedd dilynol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried addasu'r fformiwla eto ac mae'n rhaid i Ynys Môn fod yn barod am golli cyllid o bosib. Ar gyfer Ynys Môn, mae'r grant yn hanfodol i raglen ataliol y Cyngor sy'n caniatáu iddo ddarparu ar gyfer anghenion 650 o unigolion ar



DRAFT

yr Ynys bob wythnos. Byddai unrhyw ostyngiad pellach yn yr arian grant yn cael effaith ddifrifol, gan efallai beryglu dyfodol rhai o'r cynlluniau yn y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi annerch cyfarfod diweddar o Drysoryddion Llywodraeth Leol yng Nghymru ar newidiadau yn y modd y caiff y grant ei ddosbarth trwy Gymru. Mae is-grŵp o Drysoryddion Llywodraeth Leol yng Nghymru yn cael ei sefydlu i edrych ar y mater gyda Llywodraeth Cymru er mwyn canfod ffordd o warchod awdurdodau a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau yn y fformwla gyllido. Gan fod y rhain yn fwy tebygol o fod yng ngogledd Cymru, bydd un Trysorydd o chwech awdurdod Gogledd Cymru yn aelod o'r is-grŵp.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gytûn bod gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl yn eithriadol o bwysig wrth helpu i ddarparu cymorth i amrywiaeth o grwpiau o bobl fregus dros ystod eang o raglenni, lle fel arall byddai'n rhaid i'r Cyngor ddiwallu eu anghenion o'i gyllideb graidd ei hun. Nododd y Pwyllgor Gwaith y gallai unrhyw ostyngiad pellach yn y cyllid o ganlyniad i newidiadau i'r fformiwla gyllido, gael effaith andwyol ar y ddarpariaeth, ac yn ddelfrydol bod angen sefydlogrwydd ar ffurf sicrwydd cyllid dros y tymor hir.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2019-20.**
- **Y dyraniad cyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth fel yr amlinellir ar dudalen 13 y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.**

## 10. GRANT PLANT A CHYMUNEDAU 2019/20

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo – adroddiad ar y cyd y Pennaeth Dysgu, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Pennaeth Gwasanaethau Tai, yn ymgorffori'r Cynllun Drafft Plant a Chymunedau 2019/20.

Adroddodd Rheolwr yr Uned Cefnogi Teuluoedd y bydd Llywodraeth Cymru, o fis Ebrill 2019 ymlaen, yn cyfuno'r 7 grant unigol a restrir yn yr adroddiad o dan y Rhaglen Grant Plant a Chymunedau. Er bod pob rhaglen unigol yn parhau i gynllunio ac i adrodd yn annibynnol i Lywodraeth Cymru, yn unol â'r fenter Cyllid Hyblyg newydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod nawr gyflwyno un cais grant am y grantiau hyn. Mae blwyddyn ariannol 2019/20 yn cael ei gweld fel blwyddyn drosiannol gyda gwaith pellach yn cael ei wneud i fapio a chydgysylltu gwasanaethau er mwyn gwella'r ffocws ar y cwsmer a chanlyniadau i'r cwsmer. Ceisir cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cynllun 2019-20 gyda'r bwriad wedyn o ddychwelyd gyda chynllun ar gyfer 2020 ymlaen lle bydd y rhaglenni grant wedi eu halinio'n well ac yn targedu grwpiau penodol/darparu gwasanaethau penodol yn unol â demograffeg lleol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith fod rhaid i'r Awdurdod fod yn barod am y posibilrwydd o ostyngiad yn y cyllid o ganlyniad i gyfuno'r 7 grant unigol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Drafft Plant a Chymunedau ar gyfer 2019-20.**

## 11. POLISI CLUDIANT YSGOL

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Ieuenctid, er na chynigir unrhyw newidiadau sylfaenol i'r meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant ysgol



DRAFT

(mae'r rhain wedi eu hamlinellu yn adran 1.2.1 yr adroddiad), mae'r polisi diwygiedig yn rhoi eglurhad manwl ar y meysydd a amlinellir yn adran 1.2 yr adroddiad. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio at sylwadau'r Panel Sgriwtini Cyllid – roedd y Panel wedi rhoi ystyriaeth fanwl i effaith ariannol y polisi cludiant diwygiedig yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror, 2019, gan nodi'r gwaith cysoni ar lwybrau tacsi a oedd wedi digwydd i gadarnhau cymhwyster am y gwasanaeth; y gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn y gwasanaeth o ganlyniad i'r gwaith cysoni; annigonolrwydd y gyllideb hanesyddol i gwrdd â chost y galw am wasanaethau, a datblygiad gwaith partneriaeth yn y maes hwn rhwng y Gwasanaethau Dysgu, Priffyrdd ac Adnoddau.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y Polisi Cludiant Ysgol cyfredol wedi cael ei adolygu i gwrdd â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac i roi dealltwriaeth gynhwysfawr i fudd-ddeiliaid o'r hyn sy'n gwneud teithwyr yn gymwys am gludiant. Bydd y polisi diwygiedig hefyd yn sicrhau bod yr Adrannau Addysg a Phriffyrdd yn gweithredu'n effeithiol i ddarparu'r gwasanaeth a bydd yn cadarnhau eu gweithdrefnau darparu cludiant. Bydd y polisi hefyd yn darparu gwerth am arian a gwasanaeth o ansawdd i fudd-ddeiliaid.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Mawrth, 2019 lle cafodd y Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig ei drafod. Wrth argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn mabwysiadu'r polisi, roedd y Pwyllgor Sgriwtini wedi nodi fod y polisi diwygiedig yn fersiwn gliriach o'r polisi cyfredol ac nad yw'n cyflwyno unrhyw beth newydd a'i fod yn cydymffurfio'n llawn â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi argymell, lle bo hynny'n ymarferol, y dylid rhoi ystyriaeth i amseriad cludiant ysgol er mwyn sicrhau bod modd i ddisgyblion sydd angen mynychu clybiau brecwast gael cludiant i'r clybiau hynny.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu'r Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig i ddod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd (Medi 2019).**
- **Nodi sylwadau'r Panel Sgriwtini Cyllid.**

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 13. MODERNEIDDIO YSGOLION YNYS MÔN – ACHOS BUSNES LLAWN (ABLI) AR GYFER YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori'r Achos Busnes Llawn am ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.

*Am ei fod wedi datgan diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon, gadawodd y Cynghorydd Richard Dew y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ar yr eitem.*

Adroddodd y Pennaeth Dysgu fod yr Achos Busnes Llawn yn egluro'r cyfiawnhad strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol dros y cynnig. Mae hefyd yn cynnwys y manylebau ar gyfer yr ysgol newydd a'r amserlen yn nghyswllt rheoli prosiect a chwblhau'r ysgol. Bydd cael sêl bendith Llywodraeth Cymru i'r Achos Busnes Llawn yn sicrhau 50% o'r cyllid ar gyfer y prosiect. Dywedodd y Swyddog y bu Ysgol Henblas yn rhan o'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill, 2018 i gymeradwyo Opsiwn 2, sef adeiladu



DRAFT

ysgol newydd yn lle ysgolion Bodffordd a Corn Hir a chadw darpariaeth addysgol yn Llangristiolus trwy naill ai gadw Ysgol Henblas yn ei ffurf bresennol neu drwy ei huno gyda'r ysgol newydd i ffurfio ysgol aml-safle. Roedd y penderfyniad hwn yn ddibynnol ar gael sicrwydd bod safonau yn Ysgol Henblas yn gwella a bod niferoedd y disgyblion yn aros yn gyson. Bu ail-arolwg gan Estyn yn yr ysol ym mis Hydref 2019, ac mae canlyniadau'r arolwg hwnnw yn cadarnhau bod cynnydd wedi digwydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolwg gwreiddiol ym mis Mai, 2017; hefyd, mae'r rhagamcanion ar gyfer niferoedd disgyblion yn dangos y byddant yn aros yn gyson dros y 3 blynedd nesaf. Felly, mae'r Awdurdod yn teimlo ei fod wedi cael sicrwydd mewn perthynas â safonau'n gwella a sefydlogrwydd niferoedd y disgyblion yn Ysgol Henblas, fel bod modd tynnu'r ysgol o'r cynnig.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees o gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Mawrth, 2019 lle cafodd yr Achos Busnes Llawn ei drafod. Diweddarwyd y Pwyllgor ynghylch, ac fe nododd sut mae'r Achos Busnes Llawn yn rhoi sylw i'r materion yr oedd wedi eu codi'n flaenorol yn y cam Achos Amlinellol Strategol mewn perthynas â materion priffyrdd a digon o lefydd parcio; materion traffig a diogelwch y ffordd yng nghyffiniau'r ysgol newydd, a dyfodol Canolfan Bodffordd fel adnodd cymunedol a fforddiadwyedd y cynnig. Nododd y Pwyllgor hefyd y sefyllfa well yn Ysgol Henblas erbyn hyn, ac o ganlyniad i'r wybodaeth a'r pwyntiau o eglurhad a dderbyniwyd, roedd yn argymell y dylid cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn a thynnu Ysgol Henblas o'r cynnig.

Rhoddodd Bennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo amlinelliad o'r trefniadau rheoli traffig yng nghyffiniau'r ysgol newydd.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (ABLl) ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu'r ysgol gynradd newydd, ar yr amod na fydd problemau'n codi gyda gwerthu'r safle(oedd).**
- **Bod Ysgol Henblas yn cael ei thynnu o'r cynnig oherwydd bernir bod safonau'r ysgol wedi gwella a bod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn aros yn gyson.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau)<br>Y Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br>Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)<br>Liz Fletcher (BIPBC)<br>Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)<br>Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)<br>Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant)<br>Keith Walters (Arweinydd Ymarfer - Tîm Lleoli Plant)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid) Mr Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), Rona Jones, Dawn Owen (Swyddogion Adolygu Annibynnol) |

---

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION CYFARFOD 10 RHAGFYR, 2018

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2018, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3 MATERION YN CODI

- **Lleisiau o Ofal Cymru**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) ei fod wedi adrodd i gyfarfod blaenorol y Panel ar fenter ar y cyd arfaethedig gyda Lleisiau o Ofal Cymru - un o'r asiantaethau gwirfoddol mwyaf blaenllaw yng Nghymru am weithio gyda phlant sy'n derbyn gofal - i sefydlu grŵp cyfranogi misol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i helpu i gyd-gynhyrchu Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal. Byddai'r prosiect lle byddai Lleisiau o Ofal Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth ar gyfranogiad a rhianta corfforaethol, yn rhedeg am o leiaf ddeuddeng mis ar gost o £ 16,500 y flwyddyn a byddai

ganddo hefyd werth etifeddiaeth o ran sefydlu'r modd y gall plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod barhau i gael llais y tu draw i oes y prosiect, a hefyd o ran sicrhau bod eu cyfranogiad yn ystyrlon a bod i'r cyfranogiad hwnnw ganlyniad pendant ar ffurf Strategaeth ar gyfer Ynys Môn i Blant sy'n Derbyn Gofal a Gadawyr Gofal. Dywedodd y Swyddog ei fod wedi cysylltu â phartneriaid y Gwasanaeth yn fewnol ac yn allanol i gael gwybod a fyddent yn gallu cyfrannu tuag at gost y prosiect ac hyd yn hyn bod Gwasanaethau Addysg a Thai y Cyngor wedi cadarnhau eu parodrwydd i wneud cyfraniad o'r fath. Roedd Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi cadarnhau trwy lythyr nad oedd yn gallu cyfrannu gan nodi y byddai gwneud hynny'n gosod cynsail ar gyfer cyfrannu at brosiectau gan awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a hefyd oherwydd ei fod yn datblygu ei broses ei hun ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. Yn yr un modd, nid yw'r prosiect yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ei ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn nac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Stad Elusennol David Hughes). Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth fod trafodaethau gyda Lleisiau o Ofal Cymru wedi symud ymlaen ac y bydd swyddog o'r sefydliad yn dod i Ynys Môn yn ystod yr wythnosau nesaf fel rhan o Ymweliad Laming.

Dywedodd Liz Fletcher, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er ei bod yn cytuno â'r prosiect mewn egwyddor, y byddai'n rhaid iddi sefydlu gydag Adran Gyllid y Bwrdd a oes cyllid ar gael i alluogi gwneud cyfraniad.

Wrth nodi'r adroddiad a ddaeth yn ôl gan y Rheolwr Gwasanaeth, nododd y Panel hefyd fod yr Heddlu, o dan y ddeddfwriaeth enillion o droseddau, yn derbyn canran o'r arian a atafaelwyd a gellir ei ddefnyddio er budd y gymuned ar draws ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol gwneud ymholiadau pellach am arian enillion o droseddau fel llwybr ariannu posibl ar gyfer y prosiect Lleisiau o Ofal.

**CAMAU GWEITHREDU Y CYTUNWYD ARNYNT: Gwneud ymholiadau gyda Heddlu Gogledd Cymru ynghylch a ellir gwneud cyfraniad tuag at y prosiect Lleisiau o Ofal o arian enillion o droseddau.**

- **GWASANAETH IECHYD MEDDWL PLANT A PHOBL IFANC (CAMHS)**

Cadarnhaodd Liz Fletcher, BIPBC, fel un â chyfrifoldeb am iechyd plant ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda portffolio yn cwmpasu gwasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc; gwasanaeth aciwt yn yr ysbyty; gwasanaeth ymwelwyr iechyd a nyrsuso ysgol a gwasanaeth cymunedol (gyda phwyslais ar niwro-ddatblygiad ac anabledd) y byddai'n hapus i ofyn i unrhyw un o'r pedwar rheolwr gwasanaeth fynychu cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol i drafod elfennau penodol yn ymwneud â'r pedwar maes gwasanaeth.

## 4 CYNHADLEDD LLEISIAU O OFAL CYMRU

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Panel, adroddiad ar Gynhadledd Lleisiau o Ofal Cymru a gynhaliwyd yn Llanrwst ar 26 Chwefror 2019.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mai'r achlysur uchod oedd y digwyddiad LlOOC cyntaf erioed i'w gynnal yn y Gogledd a bod gan Ynys Môn gynrychiolaeth dda yn y gynhadledd gyda phedair merch rhwng 6 ac 14 oed ynghyd â thri rhiant maeth a thri rhiant corfforaethol yn mynychu'r digwyddiad. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys sgwrs gan ddyn ifanc a oedd wedi bod yn blentyn mewn gofal a oedd yn adrodd ar ei brofiadau o ofal ac o symud o un lleoliad maeth i'r llall. Cynhaliwyd gweithdai yn y bore a'r prynhawn ar themâu a oedd yn amrywio o rianta corfforaethol a phrofiadau pobl ifanc o fod

yn blentyn mewn gofal mewn cymunedau yng Nghymru i rôl llenyddiaeth wrth droi profiadau negyddol yn rhai cadarnhaol. Cynhaliwyd sioe anifeiliaid ryngweithiol hefyd a oedd yn boblogaidd. Dywedodd y Swyddog fod y digwyddiad yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gyfarfod a rhannu profiadau. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y caiff aelod(au) o'r Panel Rhiant Corfforaethol gyfle i fynychu digwyddiad y flwyddyn nesaf.

Nododd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd ac er ei fod yn croesawu'r cyfle y gall y gynhadledd a digwyddiadau eraill tebyg ei ddarparu i aelodau'r Panel gyfarfod â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, nododd na ddylai mynychu digwyddiadau o'r fath fod yr unig ffordd y gall Aelodau ymgysylltu â hwy. Pwysleisiodd y Panel y byddai'n hoffi derbyn adborth gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain am yr hyn sydd yn dda ganddynt a'r hyn nad yw cystal iddynt gan gynnwys mewn digwyddiadau fel hyn, a bod y plant yn cael y cyfle i fynegi eu barn trwy pa bynnag cyfrwng maent yn ei ddewis.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mai rhan o friff y prosiect ar gyfer Lleisiau o Ofal Cymru yw gwella cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chryfhau'r cysylltiad rhwng yr Awdurdod ac Aelodau Etholedig a'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt.

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL.**

## 5 STRATEGAETH RECRIWTIO A CHADW GOFALWYR MAETH

Rhoddodd Keith Walters, Arweinydd Ymarfer y Tîm Lleoli Plant gyflwyniad i'r Panel ar recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth gan gyfeirio'n benodol at y modd y byddai'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth yn cael ei gweithredu.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Lleoli Plant fod dadansoddiad SWOT o Wasanaeth Maethu yr Awdurdod wedi dangos bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa dda ar hyn o ran capasiti llawn a'r gymysgedd o Weithwyr Cymdeithasol profiadol a newydd. Fel Asiantaeth Faethu Awdurdod Lleol, mae'r Gwasanaeth yn ffodus o gael cysylltiadau cryf gyda'i Weithwyr Cymdeithasol ei hun yn y Tîm Plant. Dywedodd y Swyddog fod yn rhaid i'r Gwasanaeth wneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddo yn benodol, sef y gefnogaeth a ddarperir gan y Cyngor i ariannu Cynnig Newydd i ddenu Gofalwyr Maeth sy'n darparu pecyn gwell o fudd-daliadau i Ofalwyr Maeth yr Awdurdod - gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor ; parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor, aelodaeth am ddim ar gyfer canolfannau hamdden y Cyngor a chynnydd o 10% yn y lwfansau maethu. Fodd bynnag, bydd angen i'r Gwasanaeth sicrhau ei fod yn gallu cwrdd â'r galw am asesiadau.

Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maethu, a'r amcanion yw recriwtio mwy o ofalwyr maeth, i ddarparu gwell cefnogaeth i ofalwyr maeth ac i wneud gwaith ataliol yn well hefyd. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn bydd y Strategaeth -

- Yn sicrhau bod Maethu yn y newyddion. Bydd digwyddiadau fel y Pythefnos Maethu, dosbarthu Cylchlythyr Maethu CSYM ar lefel ehangach i feddygfeydd a deintyddion yn ogystal ag i bob Gofalwr Maeth a sicrhau bod Gofalwyr Maeth yn mynychu digwyddiadau proffil uchel yn codi ymwybyddiaeth pobl o faethu a'u hannog i siarad amdano.
- Dweud wrth bawb am Gynnig Newydd yr Awdurdod. Nid yw tybio bod pobl yn gwybod amdano'n ddigon da. Er bod y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd fwyfwy effeithiol o gael cyhoeddusrwydd a lledaenu gwybodaeth, gwybodaeth a geir ar lafar yw'r dull marchnata mwyaf pwerus o hyd.
- Gwella'r gefnogaeth a ddarperir i Ofalwyr Maeth drwy -

- gynyddu amlder goruchwyliaeth ac ymweliadau cefnogi;
- parhau i hwyluso cynulliadau ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd ar gyfer Gofalwyr Maeth drwy gyfrwng y Fforwm Maethu (ffurfiol) a sesiynau te a chacennau (anffurfiol);
- Gofalwyr Maeth i gael mwy o ymwneud â'r Gwobrau Seren;
- cynllun mentora a elwir hefyd yn "system Buddy-Buddy;"
- datblygu Rhaglen Hyfforddi gliriach;
- datblygu Grŵp ar gyfer Dynion sy'n Maethu;
- datblygu Grŵp Cefnogi ar gyfer Pobl Gysylltiedig

- Cryfhau gwaith ataliol trwy hyfforddiant ymyrraeth ddwys a chyfarfodydd tîm; cyfranogiad cynnar mewn cyfarfodydd Grŵp Teulu ac ystyried dewisiadau eraill yn lle Maethu, e.e. Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod gan y Gwasanaeth well dealltwriaeth o ble y mae ac yn seiliedig ar y ddealltwriaeth honno, mae'n cynllunio ymlaen yn well yn hytrach na gwneud cynlluniau yn fyr-fyfyr, e.e. mae'n rhagweld yr anghenion o ran lleoli plant ac yn ceisio gweld sut y gellir diwallu'r anghenion trwy ddarpariaeth maethu yn y dyfodol.

Ystyriodd y Panel y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn -

- Gofynnodd y Panel am sicrwydd bod y trefniadau strwythurol ar waith i gefnogi gweithrediad parhaus y strategaeth ac i hwyluso cynllunio ystyriol yn hytrach na chynllunio adweithiol h.y. ni fydd absenoldeb neu ymadawiad swyddog penodol yn effeithio ar barhad y gwaith a bod y gofynion yn cael eu gwneud yn glir yn y trefniadau olyniaeth.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Lleoli Plant fod elfen o barhad wedi'i cholli o ganlyniad i'r adleoli a throsiant staff asiantaeth. Fodd bynnag, mae hynny bellach yn derbyn sylw gyda gweithlu sefydlog ac mae'r Strategaeth yn anelu at roi eglurder i staff yn y timau am eu rolau a'r hyn a ddisgwylir ohonynt a'r modd y mae eu cyfrifoldebau yn cydgysylltu â rhai'r timau sy'n gweithio ochr yn ochr â hwy.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant), o ran cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant yng ngofal yr Awdurdod, bod cyfarfodydd cynllunio sefydlogrwydd yn sicrhau bod pawb yn glir ynghylch cynlluniau sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn sy'n derbyn gofal. Dywedodd y Swyddog fod ymchwil yn awgrymu na ddylai plant aros mewn gofal am y tymor hir, yn rhannol oherwydd y stigma y mae hyn yn ei greu. Un opsiwn yw i Ofalwyr Maeth wneud cais am Orchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r rhiant maeth am y plentyn nes ei fod yn 18 oed. Byddai'r plentyn yn parhau i dderbyn cefnogaeth ond nid fel plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r holl blant y mae'n gofalu amdanynt i sicrhau bod cynlluniau pendant ar eu cyfer yn y tymor hir ac, ers diwedd y flwyddyn ddiwethaf, mae wedi gwneud cais i'r Llysoedd i ddiddymu'r gorchmynion gofal ar gyfer chwe phlentyn sy'n derbyn gofal wedi i'r plant hynny gael eu nodi yn ystod y broses adolygu fel rhai nad oes angen mwyach iddynt fod mewn gofal.

- Gofynnodd y Panel am sicrwydd bod gan y Tîm Lleoliadau y capasiti i gyflawni'r Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Lleoli Plant fod y Tîm yn dod i ben yn llwyddiannus ar hyn o bryd o ran gwaith cefnogi ond efallai y bydd angen adolygu'r sefyllfa os oes cynnydd yn y gwaith, yn enwedig os yw hynny'n cyd-ddigwydd â chynnydd yn nifer yr asesiadau y mae angen eu cynnal.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod angen deall cymorth yn wahanol, ac y gellir ei ddarparu mewn ffyrdd ar wahân i Weithwyr Cymdeithasol e.e. mae ystod o staff cymorth sy'n gallu ymateb i ymholiadau gan Ofalwyr Maeth ac yn aml daw'r gefnogaeth orau o siarad â Gofalwyr Maeth eraill.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen rhoi amser i'r ailstrwythuro sydd wedi digwydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gan gynnwys o fewn y Tîm Lleoli Plant sefydlu'n gadarn ac y bydd yn haws asesu effaith y newidiadau, gan gynnwys cyflwyno'r Cynnig Newydd, ar gapasiti ac ar ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer, ymhen 6 i 12 mis.

- Nododd y Panel fod y Gwasanaeth yn gwella o ran cyflymu asesiadau – y canfyddiad yn flaenorol oedd fod pethau'n cymryd gormod o amser i ddwyn ffrwyth.

**Wrth nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd, croesawodd y Panel nodau ac amcanion y Strategaeth Recriwtio a Chadw Gofalwyr Maeth ac ni wnaeth unrhyw gynigion ar gyfer camau gweithredu pellach.**

## 6 ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL (SAA)

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol (Uned Diogelu ac Ansawdd) i'r Panel ei ystyried. Rhoes yr adroddiad ddiweddariad ar y cynnydd yn erbyn y pum amcan gwella a nodwyd yn dilyn arfarniad yr SAA ym mis Mawrth, 2018 o'r Awdurdod fel rhiant corfforaethol.

Adroddodd y Swyddog Adolygu Annibynnol, yn seiliedig ar y dystiolaeth a archwiliwyd, gan gynnwys archwiliadau misol o achosion, samplu penodol at ddiben yr adroddiad; profiad y Swyddogion Adolygu o arfer cyfredol ; adborth ymarferwyr a phlant a'r archwiliad thematig o 60 o gynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y gellir dod i'r casgliad bod angen gwneud gwaith pellach i wella'r trefniadau ar gyfer cynllunio ar gyfer gofal a chymorth i blant sy'n derbyn gofal. Dygodd y Swyddog sylw at y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- O ran ansawdd yr asesiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r angen i'w diweddaru, er bod yna enghreifftiau o asesiadau'n cael eu diweddaru ac enghreifftiau hefyd o gynlluniau gofal a chymorth da, mae angen i hyn gael ei weithredu'n gyson ar draws y maes ymarfer.
- O ran darparu cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer pob plentyn sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau a ddeisyfir, ymyriadau i sicrhau'r canlyniadau hynny, cyfrifoldebau clir ac amserlenni, mae amrywiaeth rhwng ansawdd gwahanol gynlluniau. Mae angen adolygu a yw'r ddogfen Gofal a Chymorth Rhan 6 yn addas i'r pwrpas. Nid yw'r ddogfen Rhan 6 yn cyfleu'r hyn sydd wedi digwydd i'r plentyn ers yr adolygiad diwethaf.
- O ran adolygu gweithrediad a'r gwahaniaeth a wnaed, nodir gwelliant sylweddol yn nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd cyn Cyfarfodydd Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal; o sampl o 26 adolygiad, cyflwynwyd adroddiadau ar gyfer 24 (92.3%). Fodd bynnag, nodwyd problem gyda diweddaru dogfennau gydag un SAA o'r farn nad oedd llawer o ddogfennau Rhan 6 wedi cael eu diweddaru er nad oedd y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad yn adlewyrchu hyn.

- Bu dirywiad yn yr adroddiadau a dderbyniwyd gan asiantaethau maethu preifat ar gyfer adolygiadau; yn yr un modd, mae adroddiadau'r ysgolion ar gyfer adolygiadau hefyd yn anghyson gyda rhai yn cyfrannu adroddiadau yn rheolaidd ac eraill yn bur anaml. Mae cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Addysg wedi'i drefnu i drafod y mater hwn.
- O ran ansawdd a chysondeb cofnodi achosion, fel yn yr adroddiad blaenorol i'r Panel, roedd gan bob un o'r 10 achos a samplwyd ar gyfer yr adroddiad hwn gofnodiadau achos cyfredol. Mae'n gadarnhaol bod y gwelliant hwn wedi'i gynnal.
- O ran ffocws dwys ar gynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er mwyn lleihau eu nifer, mae'r SAA bellach yn mynychu cyfarfodydd cynllunio sefydlogrwydd ac yn gallu mynegi eu barn ar y cynlluniau a gyflwynwyd. Mae SAA hefyd yn mynychu cyfarfodydd misol gyda Rheolwr y Gwasanaeth i graffu lleoliadau maeth.
- Mae'r Uned sôn wrth y Gwasanaeth am yr angen i sicrhau cysondeb o ran gweithwyr cymdeithasol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae rhai plant yn dweud eu bod yn cael nifer o weithwyr gwahanol.
- Cred y Swyddogion Adolygu Annibynnol nad yw Cynlluniau Llwybr (ôl-16) yn cael eu diweddaru'n rheolaidd; caiff hyn ei fonitro'n fanylach a'i gynnwys yn adroddiad nesaf yr Uned i'r Panel. Mewn un achos, fodd bynnag, nodwyd bod y person ifanc wedi gwrthod cwblhau'r Cynllun Llwybr gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ar hyn o bryd yn adolygu effeithiolrwydd y broses adolygu yng nghyd-destun Safonau a Chanllawiau Ymarfer i Swyddogion Adolygu Annibynnol Cymru; mae rhaglen waith wedi cychwyn mewn perthynas â'r agweddau a nodwyd yn yr adroddiad.
- Mae proses yn ei lle ar gyfer herio / uwchgyfeirio pryderon lle mae Swyddogion Adolygu o'r farn nad yw'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn achosion penodol gyda hynny'n amddifadu'r plentyn o'u hawliau. Mae'r broses hon wedi cael ei hadolygu a bydd adroddiad yn cael ei lunio yn y dyfodol ar nifer a lefel yr heriau ac a gawsant eu datrys ai peidio.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi mynegi pryder bod ysgolion yn anghyson o ran gwahodd rhieni Plant sy'n Derbyn Gofal i nosweithiau rhieni. Gwnaed cais i'r Panel ofyn i'r Gwasanaeth Dysgu ymateb i hyn trwy ddarparu arweiniad clir i ysgolion ar y mater hwn ac ar hawl rhieni i gael gwybod am gynnydd addysgol eu plant.

Wrth ymateb i'r adroddiad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) y byddai'n ddefnyddiol i'r Gwasanaeth, wrth fynd i'r afael â'r materion a godwyd, pe bai'r SAA yn gallu bod yn fwy manwl yn eu sylwadau ac yn rhoi enghreifftiau, e.e. pa adolygiadau a welwyd lle nad oedd adroddiadau wedi cael eu darparu ar eu cyfer ymlaen llaw; yn mha achosion gwelwyd newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol. Hefyd, mae angen herio materion sy'n ymwneud ag ymarfer yn uniongyrchol gydag Arweinwyr Tîm fel eu bod yn ymwybodol o'u hatebolrwydd proffesiynol.

Wrth ystyried yr adroddiad, gwnaeth y Panel y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Panel yr anghysondeb o ysgol i ysgol o ran darparu adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd adolygu ac y bydd hyn yn cael ei godi mewn cyfarfod a drefnir gyda'r Gwasanaeth Dysgu. Nodwyd y gall Aelodau Etholedig yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgol dynnu sylw eu hysgolion at bwysigrwydd darparu adroddiad ar gyfer cyfarfodydd adolygu ar gynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal fel disgwyliad sylfaenol, ac fel sail ar gyfer penderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau o ran y ddarpariaeth.

Dywedodd yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol y byddai'r Llywodraethwr enwebedig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar gorff llywodraethu yn gyswllt priodol rhwng yr ysgol a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

- Nododd y Panel fod materion gyda'r ddogfen Gofal a Chymorth Rhan 6 wedi'u nodi. Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch a yw'r ddogfen Rhan 6 yn addas i'r pwrpas ac a oes modd ei gwneud yn haws i'w defnyddio.

Dywedodd y Swyddog Adolygu Annibynnol, mai cyfyng yw defnyddioldeb y ddogfen o safbwynt yr SAA, oherwydd er ei bod yn cynnwys gwybodaeth hanesyddol am y plentyn, nid yw'n olrhain cynnydd y plentyn ers y cyfarfod adolygu diwethaf.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod y ddogfen Rhan 6 yn uchelgeisiol oherwydd mae'n cyfuno 5 o ddogfennau blaenorol yn yr un adroddiad ac o'r herwydd mae'n gymhleth ac yn cynnwys llawer o wybodaeth, ac mae rhywfaint o'r wybodaeth honno'n ailadroddus. Mae'r ddogfen wedi bod yn cael ei defnyddio ers llai na blwyddyn ac nid yw ei heffeithiolrwydd wedi cael ei adolygu eto. Gallai'r Gwasanaeth edrych ar addasu'r ddogfen yn enwedig o ran gwneud i ffwrdd â dyblygu gwybodaeth, gan sicrhau ar yr un pryd bod y wybodaeth honno sy'n ofynnol o safbwynt statudol yn cael ei chynnwys.

- Nododd y Panel nad yw rhai o'r sylwadau a wnaed gan yr SAA yn ddigon manwl i alluogi'r Panel i fod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud e.e. mae'r SAA dan yr *"argraff"*; roedd un SAA o'r farn nad oedd *"llawer"* o ddogfennau wedi cael eu diweddaru.

Awgrymodd y Panel y byddai mabwysiadu'r disgrifiadau canlynol yn ddefnyddiol wrth werthuso unrhyw ddiffyg neu anghysondebau mewn ymarfer a allai gael eu nodi - bron pob un = 90%; mwyafrif sylweddol = 75%; mwyafrif = 55%; lleiafrif sylweddol = 25% a phrin iawn = 10%.

- Y byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai'r adroddiad yn cynnwys adran a fyddai'n dwyn sylw at y prif faterion sy'n codi o waith y Swyddogion Adolygu Annibynnol a bod hyn yn cael ei rannu gyda'r Gwasanaeth ymlaen llaw fel y gall baratoi ymateb i'r materion a godwyd ac i adrodd ar y mesurau a gymerwyd.

**Cytunodd y Panel i nodi'r adroddiad a'r materion a godwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol a gwnaeth y cynigion canlynol ar gyfer gweithredu pellach -**

- **Y Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant) i ddilyn i fyny ar y materion ymarfer a godwyd ac i ddiweddaru'r Panel ar lwyth gwaith Gweithwyr Cymdeithasol Plant.**
- **Y Swyddogion Adolygu Annibynnol -**
  - **I ddiwygio templed yr adroddiad i ddarparu adran ar y prif faterion sy'n codi;**
  - **I fesur anghysondebau mewn ymarfer trwy gyfeirio at ganran yr achosion.**

**Dr Gwynne Jones**
**Cadeirydd**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Ebrill 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mai - Rhagfyr 2019;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

<table>
<tr><th colspan="2">E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</th><th>Beth oedd eu sylwadau?</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)<br>(mandadol)</td><td rowspan="6">Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>Cyllid / Adran 151<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>3</td><td>Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>(mandadol)</td></tr>
<tr><td>5</td><td>Adnoddau Dynol (AD)</td></tr>
<tr><td>6</td><td>Eiddo</td></tr>
<tr><td>7</td><td>Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)</td></tr>
<tr><td>8</td><td>Sgriwtini</td><td>Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.</td></tr>
<tr><td>9</td><td>Aelodau Lleol</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
<tr><td>10</td><td>Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill</td><td>Amherthnasol.</td></tr>
</table>

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mai - Rhagfyr 2019. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Mai - Rhagfyr 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019



| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Mai 2019** | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mai 2019 | |
| 2 | **Cais Cydweithio - Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre**<br><br>Cymeradwyaeth i ymgynghori. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mai 2019 | |
| 3 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth i ymgynghori. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mai 2019 | |
| | **Mehefin 2019** | | | | | | |
| 4 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 5 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 6 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 7 | **Dogfen Gyflawni Blynyddol 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad y Pwyllgor llawn er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | Dyddiad i'w gadarnhau. |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 9 | **Contract Rheoli Gwastraff**<br><br>Cymeradwyo'n derfynol y dull ar gyfer darparu'r gwasanaeth rheoli gwastraff o Ebrill 2021 ymlaen. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod manylion y gwasanaeth a ddarperir o Ebrill 2021 ymlaen yn cwrdd ag amcanion y Cyngor o ran rheoli gwastraff. | Adnoddau / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 /<br>Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo dros dro<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 10 | **Adroddiad ar wrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol ynghylch gostwng Oed Mynediad yn Ysgol Henblas**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>25 Mai 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| | **Gorffennaf 2019** | | | | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 13 | **Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2018/19** | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 15 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| | | | | **Medi 2019** | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 17 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 19 | **Cynllun Ariannol Tymor Canolig** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 20 | **Adolygiad Rheoli Trysorlys 2018/19** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>22 Awst 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 22 | **Polisi Gosod Tai Cyngor (Cysylltiad Lleol)**<br><br>Cymeradwyaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| | **Hydref 2019** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2019** | | | | | | | |
| 24 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 27 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2019

Diweddarwyd 18 Ebrill 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 28 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cam 2 – adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a chynigion Trawsnewid. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| **Rhagfyr 2019** | | | | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |
| 30 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>(I'w gadarnhau)<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>(I'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Rhagfyr 2019 | |

Tudalen 31

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **29 Ebrill 2019** |
| **Pwnc:** | **Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Robin Williams (Adnoddau)**<br>**Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff)**<br>**Cynghorydd R Meirion Jones (Dysgu)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **R MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Bethan Owen<br>(01248) 752663<br>**BethanOwen2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

- Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2017/18 (Atodiad A).

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| | E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| • Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2017/18 |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

**Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn**

## 1. Pwrpas

**1.1** Yn yr adroddiad hwn, ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb am berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Pwrpas allweddol yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

## 2. Cefndir

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys 3 cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

**2.1.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r waddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Buddsoddi a reolir gan Reolwyr Cronfa Blackrock Investment. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddi-gyswllt, sef "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm gweddilliol yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn sydd wedi ei rhannu'n ddwy ran.

**2.1.2 CronfaYmddiriedolaeth Elusennol Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Yn ychwanegol at yr incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Caiff traean o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ei neilltuo i ddarparu buddion arbennig o unrhyw fath, sef rhai nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan yr Awdurdod, a hynny er mwyn cynorthwyo disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi eu pennu yn y cynllyn, y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Ni chafodd unrhyw grantiau eu rhannu yn 2017/18.

**2.1.3 Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae'r elfen hon o'r ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae dwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd ac sydd angen cymorth ariannol i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant. Rhoddwyd un grant o £1,000 ar gyfer 2017/18.

**2.2 Statws Cyfreithiol**

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoleb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau hynny wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol. Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes). Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, gosod rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). Mae'r awdurdod i lofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr ymddiriedolaeth bob blwyddyn wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei dirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. Perfformiad Ariannol

**3.1** Mae’r Ymddiriedolaeth yn ennill incwm o’r rhenti a geir o Bortffolio Eiddo Ymddiriedolaeth Waddol David Hughes, difidendau o fuddsoddiadau ecwiti, llogau eraill a gwerthu buddsoddiadau. Mae’r gwariant yn gysylltgiedig â chynnal a chadw eiddo, cyfleustodau, dibenion elusennol, ffioedd llywodraethiant (archwilio) a ffioedd rheoli eiddo. Mae’r wybodaeth fanwl ynghylch incwm, gwariant ac asedau’r ymddiriedolaeth ynghlwm yn Atodiad A sy’n cynnwys cyfrifon ariannol yr Ymddiriedolaeth 2017/18. Gofynnir i’r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo’r cyfrifon hyn.

**3.2** Yn 2017/18, mae cynnydd net o £288,155, mae'r incwm buddsoddi yn cyfateb i £128,223 (sef £119,505 o’r Stad David Hughes a £8,718 o difidendau a llog) a'r enillion ar y buddsoddiadau yn £350,941. Roedd y gwariant am y cyfnod yn £191,009, ac mae £119,473 yn ymwneud â gwaith chynnal a chadw.

**3.3** Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2017/18 yn dangos bod cyfanswm o £3,124,034 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2018, ac mai £218,570 o’r swm hwnnw oedd balans ariannol yr Ymddiriedolaeth ar y dyddiad hwnnw.

## 4. Casgliad

**4.1** Rhoddwyd trosolwg ar y cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae’r adroddiad yn cynnwys crynodeb o statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a pherfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae’r cyfrifon ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 wedi eu cynnwys yn Atodiad A ar gyfer eu cymeradwyo. Roedd cyfanswm o £3,124,034 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2018.

ATODIAD A

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## *2017/2018*

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**
**525254**

**CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 9-14 |

**ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau' sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

**MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

**Rhif Cofrestru Elusen**:

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

**Dogfen lywodraethu**:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe’i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae’r rhain yn nodi’r dyletswyddau, y pwerau a’r amodau y mae’n ofynnol i’r Ymddiriedolaeth weithredu arnynt.

**Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd**:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae’r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a’r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

**Strwythur y sefydliad:**

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau’r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â’r Aelod Portffolio Dysgu Gydol Oes yr awdurdod dirprwyedig i ddyrannu’r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â’r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti’r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i’r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:

- Prif Weithredwr – Dr Gwynne Jones
- Dirprwy Brif Weithredwr – Annwen Morgan
- Dirprwy Brif Weithredwr – Caroline Turner
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

**Partïon cysylltiedig:**

Oherwydd natur gweithrediadau’r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy’n gysylltiedig â’r Cyngor a’i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

**Nodau ac amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes, Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud unrhyw grantiau am nifer o flynyddoedd hyd 2016/17 pan ddyfarnodd grantiau i unigolion cymwys i'w helpu i barhau mewn Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu Hyfforddiant. Mae gweithdrefnau bellach yn cael eu hadolygu er mwyn cynyddu nifer y grantiau a ddyfernir.

**Dyrannu grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Budd cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

## LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD

**Gweithgareddau elusennol:**

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r elusen wedi bod mewn cyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n heneiddio. Bydd ymgymryd â'r cyfnod hwn o atgyfnerthu yn golygu y bydd asedau'r elusen yn gallu darparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w dyfodol-fuddiolwyr. I'r pwrpas hwn, mae'r elusen wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol o atgyweiriadau ac adnewyddiadau i Stâd David Hughes er mwyn dod â nifer o adeiladau fferm i gyflwr mwy addas. Ar y cyfan, mae'r rhaglen hon bellach wedi'i chwblhau.

**ADOLYGIAD ARIANNOL**

**Perfformiad Ariannol:**

Roedd gan yr elusen gynnydd mewn cronfeydd cyffredinol net o £288,155 yn ystod y flwyddyn oherwydd enillion heb eu gwireddu yn ymwneud ag ailbrisiadau Stâd David Hughes. Heb yr enillion heb eu gwireddu hyn, roedd gan yr Ymddiriedolaeth Ddiffyg Net o £62,786 am y flwyddyn oherwydd y gwariant ar y rhaglen atgyweirio helaeth i Stâd David Hughes a grybwyllwyd uchod.

Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2018 oedd £3,124,034, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

**Prif ffynonellau cyllido:**

Prif ffynonellau cyllido'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

**Polisi ac amcanion buddsoddi:**

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi bod angen buddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

**Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol:**

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

**DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwyllog;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau’r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

........................................................
**R MARC JONES FCPFA** **DYDDIAD:**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) SWYDDOG ADRAN 151**

**ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN**

Rwy'n adrodd i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 a nodir ar dudalennau 7-14.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan Adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan Adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr Archwiliwr Annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

**Llofnod :** ________________________________ **Dyddiad :** ____________________

**Brian Hughes FCA**
**A Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, De Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

| | | | | 31.3.18 | 31.3.17 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Waddol £** | **Cyfanswm Cronfeydd £** | **Cyfanswm Cronfeydd £** |
| **Incwm a Gwaddoliadau o :** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 4,136 | 124,087 | 128,223 | 138,637 |
| Cyfanswm Incwm | | 4,136 | 124,087 | 128,223 | 138,637 |
| **Gwariant ar :** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (177,917) | (177,917) | (53,184) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | - | - | - | (1,000) |
| Costau Cefnogi | 5 | (1,354) | (11,738) | (13,092) | (11,721) |
| Cyfanswm Gwariant | | (1,354) | (189,655) | (191,009) | (65,905) |
| | | | | | |
| Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | 2,782 | (65,568) | (62,786) | 72,732 |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 7 | (918) | 351,859 | 350,941 | 30,130 |
| Incwm / (Gwariant) Net | | 1,864 | 286,291 | 288,155 | 102,862 |
| **Eitem Eithriadol: Amhariad** | | - | - | - | (446,203) |
| Incwm / (Gwariant) Net ar ôl eitemau eithriadol | | 1,864 | 286,291 | 288,155 | (343,341) |
| | | | | | |
| Symudiad Net mewn Cronfeydd | | 1,864 | 286,291 | 288,155 | (343,341) |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 447,753 | 2,388,126 | 2,835,879 | 3,179,220 |
| Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd | | 449,617 | 2,674,417 | 3,124,034 | 2,835,879 |

# MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
# 31 MAWRTH 2017

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.18 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.17 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 106,313 | 152,266 | 258,579 | 260,824 |
| Eiddo Buddsoddi - Ystâd David Hughes | 7b | - | 2,599,600 | 2,599,600 | 2,416,550 |
| Cyfanswm Asedau Sefydlog | | 106,313 | 2,751,866 | 2,858,179 | 2,677,374 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 63,109 | 63,109 | 67,382 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 344,495 | (125,925) | 218,570 | 103,298 |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 344,495 | (62,816) | 281,679 | 170,680 |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | (1,191) | (14,633) | (15,824) | (12,175) |
| Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net | | 343,304 | (77,449) | 265,855 | 158,505 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net | | 449,617 | 2,674,417 | 3,124,034 | 2,835,879 |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 2,674,417 | 2,674,417 | 2,388,126 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 449,617 | - | 449,617 | 447,753 |
| Cyfanswm Cronfeydd Elusennol | | 449,617 | 2,674,417 | 3,124,034 | 2,835,879 |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig.

Arwyddwyd:________________________________ Dyddiad: _____________________

**R MARC JONES FCPFA**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG ADRAN 151**

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2018

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Confensiwn cyfrifo**

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

**Adnoddau a dderbyniwyd**

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

**Adnoddau a wariwyd**

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**Costau cynhyrchu arian**

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau rheoli buddsoddiad.

**Eiddo buddsoddi**

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

**Trethiant**

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

**Treth ar Werth**

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

**Strwythur y gronfa**

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy gyfyngedig.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae’r incwm sy’n weddill yn ffurfio Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn, sy’n cael ei rhannu’n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o’r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae’r ddwy ran o dair sy’n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed sydd wedi mynychu unrhyw un o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a’r colledion net sy’n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi’u gwireddu**

Mae’r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi’u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Nid yw enillion wedi’u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi’u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

| Incwm Buddsoddi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 107,184 | 107,184 | 100,456 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 7,682 | 7,682 | 3,968 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | 4,639 | 4,639 | 26,663 |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 3,387 | 4,856 | 8,243 | 7,261 |
| Llog arall | 749 | (274) | 475 | 289 |
| Cyfanswm Incwm Buddsoddi | 4,136 | 124,087 | 128,223 | 138,637 |

## 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| Costau Rheoli Buddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw Stâd David Hughes | - | (119,473) | (119,473) | (25,019) |
| Taliadau Dŵr | - | (12,375) | (12,375) | (6,130) |
| Gwasanaethau Proffesiynol | - | (5,351) | (5,351) | (22,035) |
| Costau eiddo eraill | - | (6,577) | (6,577) | - |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | - | (34,141) | (34,141) | - |
| Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiadau | - | (177,917) | (177,917) | (53,184) |

## 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| Gweithgareddau Elusennol | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraniad o 25% o incwm net i Elusen y Tlodion David Hughes | - | - | - | - |
| Grantiau Addysg i Unigolion | - | - | - | (1,000) |
| Cyfanswm Gwariant Elusennol | - | - | - | (1,000) |

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

## 5. COSTAU CEFNOGI

| Costau Cefnogi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (8,891) | (8,891) | (8,250) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | (909) | (2,402) | (3,311) | (2,621) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | (445) | (445) | (890) | (850) |
| Cyfanswm Costau Cefnogi | (1,354) | (11,738) | (13,092) | (11,721) |

## 6. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler y nodyn parti cysylltiedig mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 7. BUDDSODDIADAU

| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Ennillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | (918) | (1,326) | (2,244) | 37,320 |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | 353,185 | 353,185 | (7,190) |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net | (918) | 351,859 | 350,941 | 30,130 |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFNEWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.03.18 £ | Cyfanswm 31.03.17 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 107,231 | 153,593 | 260,824 | 223,504 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | (918) | (1,327) | (2,245) | 37,320 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 106,313 | 152,266 | 258,579 | 260,824 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r DU.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Cyffredin Charinco a Charishare gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, eu gwerth hanesyddol yw £67,029.

### b. EIDDO BUDDSODDI

| Eiddo Buddsoddi | 31.03.18 £ | 31.03.17 £ |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad ar 1 Ebrill | 2,416,550 | 2,184,398 |
| Ychwanegiadau | - | 710,545 |
| Gwarediadau | (132,500) | (14) |
| Amhariad | - | (446,203) |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | 315,550 | (32,176) |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 2,599,600 | 2,416,550 |

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 14 o anheddau fferm a 2 parsel o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,144.15 erw. Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd tyddyn Tŷ Llwyd, gan arwain at incwm cyfalaf o £170k. Enillodd yr Ymddiriedolaeth dros £37k ar y gwerthiant hwn. Ar 31 Mawrth 2018, mae Bryn Llwyd yn cael ei gynnwys ar sail gwerth Ased a Ddelir i'w Werthu gan y bydd yn cael ei werthu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gwnaeth parhad y rhaglen adnewyddu arwain at wariant o £119k ar atgyweirio a chynnal a chadw.

Prisiwyd y Stâd ym Mawrth 2018 ar sail defnydd presennol gan Barry Wyn Jones, Prisiwr Mewnol Ystadau Cyngor Sir Ynys Môn a chyfanswm y gwerth oedd £2,599,600.

## 8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.03.18<br>£ | 31.03.17<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 97,250 | 67,382 |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (34,141) | - |
| Cyfanswm Dyledwyr | 63,109 | 67,382 |

Penderfynwyd y byddai'n bwyllog creu darpariaeth ar gyfer drwgddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol sydd wedi cronni, er bod ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan cyn-denantiaid wedi cynyddu'n ddiweddar.

## 9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| Arian yn y Banc | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3<br>£ | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3<br>£ | Stâd Elusennol David Hughes<br>£ | Cyfanswm Cronfeydd 31.3.18<br>£ | Cyfanswm Cronfeydd 31.3.17<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y banc | 207,184 | 137,311 | (125,925) | 218,570 | 103,298 |
| Adneuon Banc | 207,184 | 137,311 | (125,925) | 218,570 | 103,298 |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig<br>£ | Cronfeydd Gwaddol<br>£ | 31.03.18<br>£ | 31.03.17<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | (1,191) | (14,633) | (15,824) | (12,175) |
| Cyfanswm Credydwyr | (1,191) | (14,633) | (15,824) | (12,175) |

## 11. SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

**a.**

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 01.04.17<br>£ | Symudiad Net mewn Cronfeydd<br>£ | 31.03.18<br>£ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 277,193 | 1,479 | 278,672 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 170,560 | 385 | 170,945 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 447,753 | 1,864 | 449,617 |
| | | | |
| Stâd Elusennol David Hughes | 2,388,126 | 286,291 | 2,674,417 |
| | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 2,835,879 | 288,155 | 3,124,034 |

**b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:**

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Enillion a Cholledion<br>£ | Symudiad mewn Cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 2,748 | (677) | (592) | 1,479 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 1,388 | (677) | (326) | 385 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 4,136 | (1,354) | (918) | 1,864 |
| | | | | |
| Stâd Elusennol David Hughes | 124,087 | (189,655) | 351,859 | 286,291 |
| | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 128,223 | (191,009) | 350,941 | 288,155 |

## 12. DATGELIADAU PARTI CYSYLLTIEDIG

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £8,891 (£8,250 yn 2016/17) gan y Cyngor i weinyddu Stâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £2,986 (£2,621 yn 2016/17) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £11,877. Yn 2016/17 darparwyd Gwasanaethau Pensaernïol mewn perthynas â gwaith atgyweirio ac adnewyddu’r Stâd yn fewnol, ac fe godwyd £22,035 ar yr Ymddiriedolaeth.

Oherwydd natur gweithrediadau’r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy’n gysylltiedig â’r Cyngor a’i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29ain Ebrill, 2019** |
| **Pwnc:** | **Gostwng Oed mynediad Ysgol Henblas** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br>**01248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Dafydd Roberts**<br>**Cynghorydd Eric Wyn Jones** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Derbyniwyd cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas i'r Awdurdod ystyried gostwng oed mynediad yr ysgol i dderbyn disgyblion yn rhan-amser o'r Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor Sir a thrafodwyd y ddogfen mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu llawn ar 28/11/18.

Yn dilyn hyn anfonwyd copïau papur allan i nifer o ymgyngoreion yn unol â'r rhestr yn y ddogfen ymgynghori. Gwahoddwyd yr ymgyngoreion i sesiwn galw i mewn yn yr ysgol ar 05/02/19 er mwyn gallu trafod oblygiadau'r cynnig ar drefniadaeth yr ysgol.

I grynhoi roedd y Corff Llywodraethu, y rhieni, a'r Cyngor Ysgol o blaid y cynnig.

Roedd Estyn yn datgan "Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, neu ei wella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth."

Fodd bynnag teimlir fod y dystiolaeth o ran ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth i gefnogi'r cais yn brin. Hefyd *'Nid yw'r cynigiwr wedi cynnwys tystiolaeth am ddata cyrhaeddiad y disgyblion dros gyfnod nac ychwaith wybodaeth briodol gan*

| |
|---|
| *y consortiwm parthed y lefel o gefnogaeth mae'r ysgol yn ei dderbyn.'*<br><br>Gweler ymateb yr Awdurdod yng nghorff yr adroddiad.<br><br>**Mae swyddogion yr Awdurdod yn argymell symud ymlaen gyda'r drefn drwy gyhoeddi rhybudd statudol gan gasglu gwrthwynebiadau.** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Yr opsiwn arall yw parhau gyda'r trefniadau presennol ond ni chafwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, 006/2013.<br>Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi, mae'r awdurdod wedi dilyn y broses gyda ysgolion eraill dros y blynyddoedd diwethaf. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**<br>(mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151**<br>(mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro**<br>(mandadol) | Mae angen cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb – wedi ei atodi: Atodiad 2.<br>Mae angen manylu ar ymateb staff y cylch gan asesu'r effaith arnynt gan y cynnig. Hyn wedi ei |

| | | |
|---|---|---|
| | | ychwanegu i'r adroddiad. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad ar yr Ymgynghori. |

| **FF -Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Dim |

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORI YNGLŶN Â GOSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS

# 3 MEDI 2019

# REPORT ON THE CONSULTATION REGARDING LOWERING THE ADMISSIONS AGE FOR YSGOL HENBLAS

# 3 SEPTEMBER 2019

## A. CEFNDIR

Yn dilyn derbyn cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas, cynhaliwyd ymgynghoriad gan yr Awdurdod ar y cynnig i ostwng oed mynediad. Golyga hyn y bydd Ysgol Henblas yn derbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 3ydd Medi 2019.
Ar hyn o bryd derbynnir disgyblion i Ysgol Henblas yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu 4ydd pen-blwydd tra bod Cylch Meithrin Henblas yn darparu addysg blynyddoedd cynnar o ddechrau'r tymor yn dilyn y 3ydd pen-blwydd i'r Medi yn dilyn y 4ydd pen-blwydd.

## B. Y BROSES YMGYNGHORI

Cyhoeddodd yr Awdurdod ddogfen ymgynghori ar wefan y Cyngor Sir a thrafodwyd y ddogfen mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu llawn ar 28/11/18. Yn dilyn hyn anfonwyd copïau papur allan i nifer o ymgyngoreion yn unol â'r rhestr yn y ddogfen ymgynghori. Gwahoddwyd yr ymgyngoreion i sesiwn galw i mewn yn yr ysgol ar 05/02/19 er mwyn gallu trafod oblygiadau'r cynnig ar drefniadaeth yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau'r Cyngor Ysgol er mwyn sicrhau fod llais y disgybl yn cael ei glywed a'u barn yn cael ei ystyried yn yr ymgynghori. Roedd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar Fawrth 1af, 2019.

## C. YMATEBION

1. Roedd 9 aelod o'r Corff Llywodraethu yn bresennol yn y cyfarfod ar 28/11/19 yn ogystal â'r pennaeth. Aethpwyd trwy'r ddogfen yn ofalus a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cynnig. Mynegodd un aelod eu bod yn teimlo fod angen ychwanegu crynodeb o'r adroddiad monitro Hydref 2018 wrth ochr y crynodeb am adroddiad arolwg Mai 2017 er mwyn cydnabod cynnydd. Ni fynegwyd gwrthwynebiad.
2. Mynychodd pedwar rhiant y sesiwn galw i mewn. Mynegwyd ar lafar ganddynt eu bod yn gefnogol iawn i'r cynnig . Roeddent yn gweld hyn fel esblygiad pwysig yn natblygiad yr ysgol. Yn ogystal bydd yn sicrhau fod disgyblion yn cael mynediad i gyfleoedd ehangach.
3. Trefnwyd gyda'r Cyngor Ysgol i drafod y cynnig. Cafwyd trafodaeth adeiladol ac aeddfed gyda'r aelodau. Yn dilyn hynny, derbyniwyd ymateb ysgrifenedig ganddynt.
   Roeddent yn:
   - Cefnogi'r cynnig
   - Yn ei weld fel cyfle i anwytho a chefnogi'r disgyblion cyn ysgol.
   - Teimlo y byddai yn gyfle i'r disgyblion ddod i arfer gyda threfn yr ysgol ac ymgyfarwyddo gyda'r disgyblion a'r staff.
   - Gweld y byddai cyfle i ddefnyddio'r ardal a'r offer allanol yn gyfle i ddatblygu sgiliau cynnar.
4. Anfonwyd tri ymateb trwy e-bost ac un trwy law. Roedd pob un yn gwbl bleidiol i'r cynnig hwn. Roeddent yn gefnogol i waith y pennaeth a'r modd y mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn ddiweddar.
   Sylwadau :
   'Rydw i yn teimlo byddai'r plant yn cael cyfleoedd dysgu fwy eang yn y lleoliad yma…'
   '…the amended admission age, in my opinion, can only be positive in terms of his education and social development. I feel it will improve his transition into full time education at Ysgol Henblas.'
   'it will improve their confidence and social skills.'
   'Cytuno gyda'r cynnig. Mae safonau wedi gwella yn aruthrol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.'

‘Bydd hyn yn dod a’r plant o dan adain arweinyddiaeth y pennaeth. Mae’n bwysig i ddatblygiad yr ysgol.’

5. SYLWADAU’R AWDURDOD ADDYSG

Mae’r Awdurdod yn gefnogol i’r cais i newid oed mynediad yr ysgol gan fod :-

- Adroddiadau diweddar GwE yn ategu bod cynnydd cadarn wedi ei wneud i gynnal safonau da ar draws yr ysgol.
- Bod gostwng oed mynediad yn Ysgol Henblas yn cynnig darpariaeth sy’n cyfatebu gydag ystod oedran rhan fwyaf o ysgolion y Sir.
- Bod niferoedd disgyblion sydd angen y ddarpariaeth o fewn yr ardal wedi cynyddu
- Bod y Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli ar dir yr ysgol mewn lle gwell i gymryd mantais bellach o ofal plant 30 awr.

6. SYLWADAU ESTYN

Derbyniwyd ymateb i’r cynnig gan Estyn, er nad oes gofyn statudol arnynt mewn perthynas â chòd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Maent yn cydnabod y byddai’r trefniant o ostwng oed mynediad yn Ysgol Henblas yn sicrhau dilyniant a pharhad yn addysg y disgyblion. Yn ogystal byddai’n darparu addysg feithrin ffurfiol ar gyfer plant y dalgylch.

Mae Estyn o’r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, neu ei wella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth a rheolaeth.

‘*Fodd bynnag teimlir fod y dystiolaeth o ran ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth a rheolaeth i gefnogi’r cais yn brin*.’

Hefyd *‘Nid yw’r cynigiwr wedi cynnwys tystiolaeth am ddata cyrhaeddiad y disgyblion dros gyfnod nac ychwaith wybodaeth briodol gan y consortiwm parthed y lefel o gefnogaeth mae’r ysgol yn ei dderbyn.’*

Mewn ymateb i hyn:

- Mae adroddiad ymweliad ESTYN Tachwedd 2018 yn nodi:

  ‘Yn gyffredinol, mae cynnydd da yn erbyn llawer o’r argymhellion, sy’n dangos gallu cynyddol yr arweinwyr i fynd i’r afael â chynlluniau gwella yn fwy llwyddiannus.’

- Mae’r consortia (GwE) wedi adnabod bellach fod yr ysgol yn Categori B o ran gallu i wella. O ran y gefnogaeth sydd ei angen ar yr ysgol mae’r ysgol bellach yn y categori melyn sef ysgol sydd angen llai o gefnogaeth. Y rheswm am hyn yw fod y cynnydd o dan arweinyddiaeth gadarn yn amlwg mewn cyfnod byr.

- O ran deilliannau disgyblion a chymhariaeth tros dreigl mae’r ysgol ym amlwg yn targedu ac yn darparu yn hynod effeithiol. Mae cynnydd disgyblion ynghyd a chyrhaeddiad yn dangos gwelliant. Mae’r targedau a osodwyd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2 a 6 yn Haf 2019 yn arddangos disgwyliadau uchel.

  CS – [11 disgybl] Targedir i 100% o’r disgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig [D5] gydag 80% yn cyrraedd y deilliant uwch yn y Gymraeg a 100% mewn Mathemateg.

CA 2 – [12 disgybl] targedir 92% i gyrraedd y deilliant disgwyliedig [lefel 4] ag eithrio Saesneg lle targedir 100%.Mae'r targedau ar gyfer y lefelau uwch hefyd yn arddangos disgwyliadau uchel.

## D. PRIF FATERION I'W HYSTYRIED

Mae angen ystyried sut y gellir rhoi cynlluniau drafft ar waith cyn y penderfyniad terfynol gan y Cyngor. Bydd hyn yn hwyluso'r trefniadau o ochr yr ysgol a'r cylch gyda'r rhieni yn gwybod beth fydd y sefyllfa debygol ym mis Medi 2019.

Mae angen ystyried sut y bydd Ysgol Henblas yn plethu o fewn cynlluniau moderneiddio dalgylch Llangefni i'r dyfodol.

## E. CASGLIADAU

1. Dylai'r Cyngor symud i gyhoeddi cynnig statudol ar ffurf hysbysiad statudol i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 3ydd Medi, 2019.

2. O symud i gyhoeddi cynnig statudol dylai'r Cyngor ystyried caniatáu i swyddogion symud ar y cynnig yn syth os na ddaw unrhyw wrthwynebiad i law o fewn y cyfnod 28 diwrnod o rybudd i gyflwyno gwrthwynebiadau . Buasai hyn yn hwyluso'r trefniadau'n fawr i'r gymuned leol. Dilynir i fyny gydag adroddiad i'r Cyngor.

**ATODIAD A**
**DOGFEN YMGYNGHORI YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS AR 31 AWST 2019.**

**Cyflwyniad**

Yn dilyn derbyn cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Henblas, mae’r Awdurdod yn ymgynghori ar y cynnig i ostwng oed mynediad i dderbyn disgyblion yn rhan amser o’r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 31 Awst 2019.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Henblas yn derbyn plant yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 4 oed. Mae’r ysgol yn un o 4 ysgol gynradd gyda’r polisi yma. Mae’r 39 ysgol gynradd arall yn derbyn plant yn rhan amser yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Mae newid ystod oedran ysgol yn “newidiad a reoleiddir” o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018. Penderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion.

Cyn bwrw ymlaen â'u cynigion mae’r Awdurdod am geisio barn pawb sy'n debygol o fod â buddiant yn y cynnig fel y gellir ystyried eu barn cyn gwneud penderfyniad.

Bydd y broses ar gyfer cynnal ymgynghoriad yn cynnwys

- cysylltu â darparu copi o’r ddogfen ymgynghori hon i bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys yr Awdurdod, fel sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

- cynnal sesiwn galw i mewn i bawb sydd â diddordeb ar Ddydd Mawrth 5ed Chwefror, 2019 rhwng 4.00 a 7.00 y.h yn yr ysgol.

- sicrhau bod copïau o’r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr ysgol, yn y lleoliadau nas-gynhelir perthnasol ac ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn

- cyflwyno safbwyntiau gan bawb sydd â diddordeb mewn ysgrifen i:

Mrs Meinir Hughes
Swyddog Addysg
Adran Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

MeinirHughes@ynysmon.gov.uk

Rhaid i'r holl sylwadau gyrraedd **dim hwyrach na hanner dydd Dydd Gwener, Mawrth 1af, 2019.**

**Cefndir**

Os ddaw'r cynnig i rym fe all Ysgol Henblas ddenu disgyblion yn y dyfodol fuasai wedi mynychu ysgolion eraill yn yr ardal sydd gyda darpariaeth i blant 3 oed. Yn achos Ysgol Henblas mae'r ysgolion canlynol yn ardal yr ysgol - Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir, Ysgol Esceifiog, Ysgol Graig, Ysgol Llangaffo, Ysgol Ffridd ac Ysgol Niwbwrch. Manylion perthnasol yr ysgolion gan gynnwys Ysgol Henblas yw :

| **Manylion** | **Ysgol Bodffordd** | **Ysgol Corn Hir** | **Ysgol Esceifiog** | **Ysgol y Graig** | **Ysgol Llangaffo** | **Ysgol y Ffridd** | **Ysgol Niwbwrch** | **Ysgol Henblas** | **Ysgol Santes Dwynwen** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliad | YSGOL BODFFORDD<br><br>Bodffordd, Ynys Môn LL777LZ | YSGOL CORN HIR<br><br>Bryn Meurig,<br><br>Llangefni, Ynys Môn LL777JB | YSGOL ESCEIFIOG<br><br>Gaerwen, Ynys Môn LL60 6DD | YSGOL Y GRAIG,<br><br>Llangefni, Ynys Môn LL77LP. | YSGOL LLANGAFFO, Ynys Môn LL606LT | YSGOL Y FFRIDD, GWALCHMAI, Ynys Môn. LL654SG. | YSGOL NIWBWRCH, LLANFAIR, Ynys Môn. LL616TE. | YSGOL HENBLAS, LLANGRISTIOLUS, BODORGAN, Ynys Môn. LL625DN. | YSGOL SANTES DWYNWEN. |
| Categori | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 3 – 11 oed | Ysgol Gymunedol i ddisgyblion 4 – 11 oed | Ysgol Gymunedol I ddisgyblion 3-11 oed |
| Iaith | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog | Dwyieithog |
| Capasiti | 63 | 204 | 124 | 330 | 42 | 84 | 104 | 96 | 180 |
| Rhif mynediad i ddisgyblion rhan amser | 12 | 0 | 17 | 48 | 6 | 12 | 14 | 0 | 25 |
| Rhif mynediad i ddisgyblion llawn amser | 9 | 29 | 17 | 47 | 6 | 12 | 14 | 15 | 25 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer disgyblion rhan amser ar y gofrestr ym Medi | 2018 - 8<br>2017 - 15<br>2016 - 14<br>2015 - 12<br>2014 – 11<br>2013 – 11<br>2012 – 10 | 2018 - 0<br>2017 - 0<br>2016 - 0<br>2015 - 0<br>2014 – 0<br>2013 – 0<br>2012 – 0 | 2018 - 19<br>2017 - 19<br>2016 - 23<br>2015 - 23<br>2014 – 18<br>2013 – 12<br>2012 – 21 | 2018 - 39<br>2017 - 52<br>2016 - 38<br>2015 - 51<br>2014 – 51<br>2013 – 53<br>2012 – 49 | 2018 - 2<br>2017 - 6<br>2016 - 3<br>2015 - 7<br>2014 – 5<br>2013 – 7<br>2012 – 8 | 2018 - 12<br>2017 - 12<br>2016 - 14<br>2015 - 10<br>2014 – 19<br>2013 – 9<br>2012 – 7 | 2018 - 7<br>2017 - 4<br>2016 - 10<br>2015 - 6<br>2014 – 9<br>2013 – 11<br>2012 – 13 | 2018 - 0<br>2017 - 0<br>2016 - 0<br>2015 - 0<br>2014 – 0<br>2013 – 0<br>2012 – 0 | |
| Nifer disgyblion llawn amser ar y gofrestr ym Medi | 2018 - 70<br>2017 - 62<br>2016 - 64<br>2015 - 55<br>2014 – 57<br>2013 – 48<br>2012 – 47 | 2018 - 227<br>2017 - 223<br>2016 - 221<br>2015 - 207<br>2014 – 199<br>2013 – 196<br>2012 – 209 | 2018 - 137<br>2017 - 132<br>2016 - 126<br>2015 - 106<br>2014 – 97<br>2013 – 99<br>2012 – 88 | 2018 - 336<br>2017 - 334<br>2016 - 339<br>2015 - 337<br>2014 – 333<br>2013 – 327<br>2012 – 315 | 2018 - 41<br>2017 - 39<br>2016 - 38<br>2015 - 46<br>2014 – 47<br>2013 – 45<br>2012 – 40 | 2018 - 82<br>2017 - 84<br>2016 - 81<br>2015 - 72<br>2014 – 73<br>2013 – 65<br>2012 – 64 | 2018 - 57<br>2017 - 45<br>2016 - 51<br>2015 - 54<br>2014 – 51<br>2013 – 49<br>2012 – 51 | 2018 - 85<br>2017 - 84<br>2016 - 81<br>2015 - 102<br>2014 – 94<br>2013 – 94<br>2012 – 93 | |
| Rhagamcan niferoedd cyfanswm disgyblion | 2019 – 82<br>2020 – 82<br>2021 - 83<br>2022 - 84 | 2019 – 229<br>2020 – 237<br>2021 – 242<br>2022 - 242 | 2019 – 155<br>2020 – 157<br>2021 – 159<br>2022 - 160 | 2019 – 373<br>2020 – 370<br>2021 – 370<br>2022 - 371 | 2019 – 40<br>2020 – 39<br>2021 – 39<br>2022 - 38 | 2019 – 97<br>2020 – 102<br>2021 – 102<br>2022 - 95 | 2019 – 66<br>2020 – 65<br>2021 – 62<br>2022 - 60 | 2019 – 85<br>2020 – 86<br>2021 – 84<br>2022 - 76 | |
| Cyflwr yr adeilad. | **B** | **C** | **B** | **A** | **B** | **B** | **B** | **B** | |

Mae'n ofynnol i'r ysgol a'r Cylch weithredu o fewn Polisi Iaith yr Awdurdod. Fel canlyniad ni fyddai effaith negyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg ar gyfer y disgyblion hyn gan eu bod yn cael eu haddysgu yn unol â'r Polisi Iaith.

Pe byddai'r bwriad i dderbyn disgyblion 3 oed i'r ysgol yn rhan amser yn cael ei wireddu bydd y disgyblion meithrin yn cael eu haddysgu am ddeg awr yr wythnos o fewn y dosbarth Cyfnod Sylfaen. Ysgol Henblas fuasai'r darparwr lleol i blant o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

Byddai'r cylch gwirfoddol yn parhau i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar i blant hyd at y Medi yn dilyn eu 3ydd penblwydd.

Byddai'r cylch gwirfoddol yn derbyn plant unwaith y byddent yn 2.5 mlwydd oed. Ar hyn o bryd mae gan y cylch 21 o blant wedi cychwyn ym mis Medi 2018. Mae'r cylch yn derbyn y plant yma am 4 bore'r wythnos.

O dderbyn y cynnig byddai'r disgyblion newydd yn dod yn rhan o'r ysgol. Byddai'r Corff Llywodraethol yn atebol i'r Awdurdod am y safonau a'r ddarpariaeth a'r disgyblion yn destun holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r tabl isod yn gosod allan barnau adroddiad diweddar Estyn am yr ysgol a'r cylch.

| **Agwedd** | **Ysgol Henblas**<br><br>**Dyddiad –Mai 2017** | **Cylch Henblas**<br><br>**Dyddiad –Mawrth 2015** |
|---|---|---|
| *Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?* | **Digonol** | **Da** |
| Safonau: | **Digonol** | **Da** |
| Lles: | **Da** | **Da** |
| *Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?* | **Digonol** | **Da** |
| Profiadau dysgu: | **Anfoddhaol** | **Da** |
| Addysgu: | **Digonol** | **Da** |
| Gofal, cymorth ac arweiniad: | **Digonol** | **Da** |
| Amgylchedd dysgu: | **Da** | **Da** |
| *Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?* | **Anfoddhaol** | **Da** |
| Arweinyddiaeth: | **Anfoddhaol** | **Da** |
| Gwella ansawdd: | **Anfoddhaol** | **Da** |
| Gweithio mewn partneriaeth: | **Digonol** | **Da** |
| Rheoli adnoddau: | **Digonol** | **Da** |
| **Perfformiad cyfredol yr ysgol / cylch** | **Digonol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol / cylch** | **Anfoddhaol** | **Da** |

Penodwyd pennaeth newydd ym mis Ebrill 2018.
Yn dilyn monitro dilynol gan Estyn ym Mis Hydref 2018 daethant i'r farn fod:

'cynnydd da yn erbyn llawer o'r argymhellion, sy'n dangos gallu cynyddol yr arweinwyr i fynd i'r afael â chynlluniau gwella yn fwy llwyddiannus.'

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

**Y Cynnig**

Y cynnig yw i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion i'r ysgol ar sail rhan amser o'r Medi yn dilyn eu 3ydd penblwydd, o 31 Awst 2019 ymlaen.

Ar hyn o bryd Cylch Meithrin Henblas sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar yn yr ardal o ddechrau'r tymor yn dilyn y 3ydd penblwydd i'r Medi yn dilyn y 4ydd penblwydd. Mae'r Cylch Meithrin yn cyfarfod ar dir yr ysgol. Mae'r Cylch yn cyfarfod am 4 bore, 8.50 – 12.50.

Ar hyn o bryd mae 14 o blant oedd yn 3 oed ar 1 Medi 2018, a 7 o blant o dan 3 oed ar 1 Medi 2018 yn mynychu Cylch Meithrin Henblas. Rhagwelir y bydd 21 o blant a fydd yn 3 oed erbyn 1 Medi 2019.

Derbynnir disgyblion i Ysgol Henblas yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu 4ydd penblwydd. Ym mis Medi 2018 roedd 84 o ddisgyblion yn Ysgol Henblas ac fe'i haddysgir mewn 3 dosbarth yn y bore a 3 dosbarth yn y prynhawn -

| **Dosbarth** | **Oedran** | **Nifer disgyblion** |
|---|---|---|
| 1 | 4-7 | 29 |
| 2 | 7-8 | 32 |
| 3 | 9-11 | 24 |

Y cylch gwirfoddol fyddai yn parhau i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar i blant hyd at y Medi yn dilyn eu 3ydd penblwydd.

Byddai'r cylch gwirfoddol yn derbyn plant unwaith y byddent yn 2.5 mlwydd oed.

Yn nhermau cyllid buasai'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol drwy fformiwla'r Awdurdod yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion rhan amser ychwanegol wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Buasai hyn yn cyllido unrhyw staff addysgu ychwanegol sef cymorthyddion Cyfnod Sylfaen yn unol â rheoliadau statudol.

Buasai'r cylch yn parhau i dderbyn cyfraniad tuag at eu costau cynnal. Mae'r Cylch eisoes yn ystyried Cynllun Busnes pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn.

Ni ostyngir safonau addysgol ond rhagwelir gwelliant gan yr addysgir y plant gan athrawes gymwysedig o dan arweiniad pennaeth yr ysgol sydd yn atebol i Gorff Llywodraethol yr ysgol.

**Y Broses Statudol.**

Mae’r broses ymgynghori o fewn gofynion Côd Trefniadaeth Ysgolion, rhif y ddogfen 0011/2018

Yn dilyn diwedd yr ymgynghori, 01/03/19, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghori a fydd ar gael ar wefan y Cyngor.

Cyflwynir yr adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith gan swyddogion yr Awdurdod ym Mis Mawrth/Ebrill 2019 ynghyd ag argymhelliad.

Os mai parhau gyda’r cynnig yw’r argymhelliad a bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn hyn yna cyhoeddir Rhybudd Statudol a chychwynnir ar gyfnod i wrthwynebu o 28 diwrnod. Cyhoeddir adroddiad ar y safbwyntiau adroddwyd i’r Awdurdod a fydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir.

Cyflwynir yr adroddiad i’r Pwyllgor Gwaith ar y gwrthwynebiadau ym mis Mehefin / Gorffennaf 2019 i roi penderfyniad terfynol.

**Ffurflen Ymateb**

Atodir ffurflen ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon ar gyfer cyflwyno sylwadau, gan gynnwys cyfle i’r ymatebwyr nodi eu dymuniad i gael gwybod pan gaiff yr adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.

YMGYNGHORI YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD
YSGOL HENBLAS
AR 31 AWST 2019

CONSULTATION REGARDING PROPOSALS TO LOWER THE ADMISSION AGE OF YSGOL HENBLAS
AS FROM 31 AUGUST 2019

**Ffurflen Sylwadau / Feedback Form**

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau inni ar y cynnig i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas os gwelwch yn dda.

*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the proposal to lower the age of admission at Ysgol Henblas.*

**1. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig?**

***1. Do you agree with the proposal?***

**2. A oes unrhyw faterion yr hoffech dynnu eich sylw atynt?**
***2. Are there any matters to which you wish to draw our attention?***

**Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.**

***Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation.***

Dychwelwch unrhyw sylwadau at / *Return any comments to:*

Mrs Meinir Hughes
Swyddog Addysg / Education Officer
Adran Dysgu Gydol Oes / Lifelong Learning Department
Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
Swyddfeydd y Cyngor / Council Offices
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

MeinirHughes@ynysmon.gov.uk

Mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at Meinir Hughes hyd at 01/03/19

*You are welcome to send any comments or questions to Meinir Hughes up to* 01/03/19

**Atodiad 1 / *Appendix 1.***

Rhestr o ymgyngoreion i dderbyn copi o'r Ddogfen Ymgynghorol.

List of consultees to receive a copy of the Consultation document

| **Cyrff / Bodies** |
|---|
| Cadeirydd / Chair Ysgol Henblas |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Bodffordd |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Corn Hir |
| Cadeirydd Ysgol / Chair Esgeifiog |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Graig |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Llangaffo |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Niwbwrch |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Y Ffridd |
| Cadeirydd / Chair Ysgol Gyfun Llangefni |
| Cadeirydd / Chair Cylch Meithrin Henblas |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau<br>Llywodreth Cymru<br><br>Minister for Education and Skills<br>Welsh Government |
| AS / MP<br>Albert Owen |
| AC / AM<br>Rhun ap Iorwerth |
| Prif Arolygydd / Chief Inspector<br>Estyn |
| Aelodau Fforwm Undebau / Union Forum Members |
| Cadeirydd<br>Consortiwm Addysg Gogledd Cymru<br><br>Chair<br>North Wales Education Consortium |

| |
|---|
| Prif Weithredwr / Chief Executive GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>North Wales Police and Crime Commissioner |
| Cyngorau Cymuned / Community Councils –<br><br>Cyngor Bro Llanidan<br><br>Ynys Môn |
| Cynghorwyr Sir / County Councillors-<br><br>1. Cynghorydd Dafydd Roberts.<br><br>2. Cynghorydd Eric Wyn Jones.<br><br>3. Cynghorydd Peter S. Rogers.<br><br>4. Cynghorydd Bryan Owen.<br><br>5. Cynghorydd Robert G. Parry OBE FRAgS.<br><br>6. Cynghorydd Dylan Rees.<br><br>7. Cynghorydd Nicola Roberts. |
| Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru<br><br>Wales Pre-school Providers Association (WPPA) |
| Mudiad Meithrin (MM) |
| Partneriaeth Môn a Gwynedd Partnership |

**ATODIAD 2**
**Ymateb Estyn i gyflwyniad gan Gyngor Ynys Môn i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion i'r ysgol ar sail rhan amser o'r Medi yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd, o 31 Awst 2019 ymlaen.**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**
Mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Ynys Môn i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion i'r ysgol ar sail rhan amser o'r Medi yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd, o 31 Awst 2019 ymlaen.

**Crynodeb/Casgliad**
Mae'r cynigiwr wedi darparu gwybodaeth briodol sy'n esbonio'r rhesymeg tu ôl y cynnig hwn. Ar hyn o bryd, Cylch Meithrin Henblas sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar yn yr ardal o ddechrau'r tymor yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd i'r Medi yn dilyn y 4ydd pen-blwydd. Byddai derbyn y cynnig hwn yn sicrhau dilyniant a pharhad addysg y disgyblion hyn yn ffurfiol o fewn Ysgol Henblas.

Wrth ystyried 9 ysgol gynradd leol gyfagos, Ysgol Henblas yw'r unig ysgol sydd ddim yn darparu addysgu meithrin yn ffurfiol ar gyfer plant y dalgylch ar hyn o bryd.
Mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol, neu ei wella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth.

**Disgrifiad a manteision**
Mae'r rhesymwaith ar gyfer y cynnig hwn yn drefnus gyda'r ystyriaethau wedi eu sylfaenu ar ffeithiau dilys o fewn dogfennaeth addas.

Mae'r cynigiwr yn disgrifio bod y Cylch Meithrin lleol yn cyfarfod ar dir yr ysgol am bedwar bore'r wythnos. Rhagwelir bydd 21 o blant a fydd yn 3 oed erbyn 1 Medi 2019 a byddai cynnig darpariaeth meithrin o fewn Ysgol Henblas yn sicrhau y byddai'n fwy cyfleus i'r

rhieni anfon eu plant i'r ysgol hon yn hytrach na theithio i ysgolion cyfagos. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau hefyd cyfnod pontio hwylus i'r disgyblion a'r staff dysgu fel ei gilydd. Byddai'r cylch gwirfoddol yn parhau i gynnig darpariaeth ar gyfer plant 2.5 oed hyd at Fedi yn dilyn eu 3ydd pen-blwydd.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu y byddai'r ysgol yn derbyn cyllid ychwanegol drwy fformiwla'r Awdurdod yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion rhan amser a fyddai wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Byddai hyn yn cyllido unrhyw staff addysgu ychwanegol, sef cymorthyddion y cyfnod sylfaen yn unol â rheoliadau statudol. Byddai'r Cylch Meithrin yn parhau i dderbyn cyfraniad tuag at gostau cynnal ac yn parhau i weithredu eu cynllun busnes fel bo'n briodol.

Mae'r cynigiwr yn nodi bod y cynnig hwn yn cyd-fynd â'r drefn o gydymffurfio gyda newid ystod oedran yn unol â'r drefn o ail-strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn addas y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys i gefnogi'r cais hwn.

Mae'r cynigiwr yn awgrymu na fyddai safonau addysgol yn gostwng. Yn hytrach, gwelliant fyddai yn y safonau gan yr addysgir y disgyblion gan athro neu athrawes gymwysedig o dan arweiniad pennaeth yr ysgol a fyddai'n atebol i gorff llywodraethol ysgol. Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau fod disgyblion 3 oed yn mynychu'r ysgol am 10 awr yr wythnos o fewn y dosbarth cyfnod sylfaen. Byddai dilyniant a pharhad yn cael effaith da ar y safonau gan mai'r un athro neu athrawes fyddai'n addysgu'r disgyblion yn ddi-dor. Byddai'r disgyblion yn cael mynediad at adnoddau cyfnod sylfaen addas fel rhan o'r ddarpariaeth.

O dderbyn y cynnig, byddai'r disgyblion yn dod yn rhan o'r ysgol. Byddai'r corff llywodraethol yn atebol i'r Awdurdod am y safonau, y ddarpariaeth a'r disgyblion o fewn holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu na fyddai effaith negyddol ar ddarpariaeth y Gymraeg ar gyfer y disgyblion hyn gan eu bod yn cael eu haddysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod beth bynnag fel rhan o ddarpariaeth y Cylch Meithrin.

Dyfernir y radd 'B' i adeilad Ysgol Henblas fel rhan o arolwg adeiladau'r Sir. Fodd bynnag, nid yw' r cynigiwr yn manylu ar y modd mae'r cynnig hwn yn mynd i gael effaith ar ofod ac ansawdd yr adeilad nac ychwaith os oes angen addasu'r adeilad o gwbl.

Mae'r cynigiwr yn cyfeirio at ddeilliannau Arolwg Estyn Ysgol Henblas ym mis Mai 2017. Yn dilyn yr arolygiad hwn, cafodd yr ysgol ei gosod mewn categori monitro dilynol gan Estyn. Fodd bynnag ym mis Hydref, 2018 daeth yr ysgol allan o'r monitro dilynol oherwydd

bod yr ysgol wedi ‘gwneud cynnydd da yn erbyn llawer o’r argymhellion, sy’n dangos gallu cynyddol yr arweinwyr i fynd i’r afael â chynlluniau gwella yn fwy llwyddiannus.’

Nid yw’r cynigiwr wedi cynnwys tystiolaeth am ddata cyrhaeddiad y disgyblion dros gyfnod nac ychwaith gwybodaeth briodol gan y consortiwm parthed y lefel o gefnogaeth mae’r ysgol yn ei derbyn.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIAD YSGOL HENBLAS AR 3ydd MEDI 2019**

***EQUALITY IMPACT ASSESSMENT REGARDING PROPOSALS TO LOWER THE ADMISSION AGE OF YSGOL HENBLAS AS FROM 3rd SEPTEMBER 2019***

## 1. CEFNDIR

Yn ystod y cyfnod rhwng 18 Ionawr a 1 Mawrth 2019 cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig canlynol -

“Y cynnig yw i ostwng oed mynediad Ysgol Henblas i dderbyn disgyblion yn rhan amser o’r mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 3 Medi 2019.”

Cynhaliwyd cyfarfod gyda staff y Cylch Meithrin ar Mehefin 15, 2018 i drafod y cynnig a’r goblygiadau i’r Cylch Meithrin. Roeddent yn gefnogol i’r cynnig hwn ac yn ystyried cynnig darpariaeth wedi i’r plant meithrin adael gofal Ysgol Henblas am 11:30.

Trafodwyd Dogfen Ymgynghori Drafft mewn sesiwn galw i mewn yn yr ysgol ar 5 Chwefror 2019 gyda 4 rhiant yn mynychu. Ymgynghorwyd â’r Corff Llywodraethu, staff ysgol, rhieni a staff y Mudiad Meithrin. Yn dilyn trafodaethau buddiol a derbyn sylwadau adeiladol cwblhawyd y ddogfen (Atodiad A)

Rhannwyd y ddogfen ymgynghori â phawb oedd gan ddiddordeb, gan gynnwys yr Awdurdod a sicrhawyd bod copïau o’r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr ysgol ac yn y lleoliadau nas-gynhelir perthnasol ac ar safwe Cyngor Sir Ynys Môn.

Pan fo newidiadau fel hyn o bosibl yn mynd i ddigwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith ‘polisïau ac ymarferion’. Mae hyn er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisïau a’i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir, a rhoi ‘ystyriaeth briodol’ i’r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw’r polisi na’r arfer yn gwahaniaethu’n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae’r polisi neu’r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw’r polisi’n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae’n angenrheidiol cwblhau asesiadau pan gynhigir neu’r adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae’n rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd asesiad yn dod i’r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad

ydynt

Mae'r asesiad hwn yn edrych ar effaith unrhyw newid posibl ar gydraddoldeb ar deg grŵp cydraddoldeb.

1. Hil
2. Anableddau
3. Rhyw
4. Oed
5. Crefydd neu Gred – yn cynnwys diffyg cred
6. Gogwydd rhywiol
7. Y Gymraeg
8. Newid rhyw
9. Beichiogrwydd a mamolaeth
10. Arall

Prif ffynhonnell yr wybodaeth a ganlyn yw'r ffigyrau a fwydir yn ôl i Lywodraethwyr Cymru o gyfrifiad blynyddol sef Cyfrifiad Ysgolion Blynyddoedd ar lefel disgybl (CYBLD/PLASC).

## 2. ASESU

### 2.1 HIL

O'r disgyblion sydd dros 5 oed, mae pob un yn Ysgol Henblas yn 'Wyn Prydeinig.'

Mae gwybodaeth mewn perthynas â hil yn cael ei ystyried yn 'ddata sensitif' ac fel y cyfryw, mae gwybodaeth am ddisgyblion o dan 5 oed yn cael ei ddal yn ôl.

Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod plant na staff o hil wahanol yn cael eu trin yn wahanol.

### 2.2 ANABLEDD

Mae % y disgyblion sy'n derbyn darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (A.A.A.) yn yr ysgol fel y gwelir yn Nhabl 1, yn cynnwys disgyblion sy'n destun datganiad o anghenion arbennig.

**Tabl 1 -** % y disgyblion sy'n derbyn darpariaeth A.A.A

| GWEITHREDU YSGOL | GWEITHREDU YSGOL A MWY | DATGANIAD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| 13% | 2% | 2% | 17% |

Mae’r sefyllfa mewn perthynas â hygyrchedd yr ysgolion ar gyfer yr anabl fel a ganlyn:

**Tabl 2**

| ESGYNFA | TOILED HYGYRCH | MAN 2 LAWR | LIFFT YN BRESENNOL |
|---|---|---|---|
| Nag oes * | Oes | Nag oes | DYB |

*Mae mynediad i’r ysgol ar un lefel ac nid oes grisiau yn yr ysgol.

Ni cheir tystiolaeth sy’n awgrymu bod disgyblion na staff anabl yn cael eu trin yn wahanol.

**2.3 RHYW**

Gweler Tabl 3 isod am y % o fechgyn a genethod yn Ysgol Henblas.

**Tabl 3**

| NIFER BECHGYN O OED YSGOL STATUDOL | NIFER Y GENETHOD O OED YSGOL STATUDOL |
|---|---|
| 50% | 50% |

Er y gellid dadlau bod gwahaniaeth rhwng perfformiad addysgol bechgyn a genethod, mae unrhyw newid yn y cyfluniad yn annhebygol o ddwysáu hyn. Adlewyrchir hyn yn adroddiad Estyn

**Ysgol Henblas (Adroddiad Estyn Mehefin 2017)**

‘Yn gyffredinol, tros bedair blynedd, nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched o ran y gyfran sy’n cyrraedd y deilliant disgwyliedig, deilliannau uwch na’r lefelau uwch.’

Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy’n awgrymu bod bechgyn a genethod yn cael eu trin yn wahanol na bod staff gwrywaidd neu fenywaidd yn cael eu trin yn wahanol.

**2.4 OED**

Ni roddir unrhyw wybodaeth yr ystyrir ei bod yn ‘sensitif’ e.e. ethnigrwydd, rhyw ar gyfer plant o dan 5 yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
Ni cheir unrhyw dystiolaeth sy’n awgrymu bod disgyblion o oed penodol yn cael eu trin yn wahanol. Nid oes tystiolaeth ychwaith bod gwahaniaethu ar sail oed yn digwydd gyda staff yr ysgol.

**2.5 CREFYDD NEU GRED**

Mae Ysgol Henblas yn ysgol Cymunedol a nid yw’n gysylltiedig ag enwad crefyddol.

Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred yn digwydd gyda staff yr ysgol.

## 2.6 GOGWYDD RHYWIOL

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol.

## 2.7 Y GYMRAEG

Mae'r ysgol yn cydymffurfio gyda Pholisi Dwyieithog yr Awdurdod gyda'r disgwyl y bydd disgyblion yn ddwyieithog erbyn 11 oed.

## 2.8 NEWID RHYW

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol.

## 2.9 BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol. Mae staff benywaidd sy'n mynd yn feichiog â hawl i gyfnod mamolaeth yn unol â Chynllun Cyfnod Mamolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Mae staff gwrywaidd yn gymwys ar gyfer cyfnod tadolaeth yn unol â Pholisi Cyfnod Tadolaeth. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd na chymryd cyfnod tadolaeth yn digwydd gyda staff yr ysgolion.

## 2.10 ARALL

Mae % y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Henblas ac sy'n gymwys ar gyfer prydau di-dâl yn 5.8%.

Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail cymhwyster ar gyfer prydau di-dâl yn digwydd. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol yn digwydd gyda staff yr ysgolion.

# 3. CASGLIAD

Mae'r asesiad yn dangos nad oes potensial ar gyfer gwahaniaethu yn erbyn neu effeithiau niweidiol o safbwynt cydraddoldeb.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **29 Ebrill 2019** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn – adolygu'r ddarpariaeth ôl-16** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb**<br>**2919**<br>**emrysbebb@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol ar draws y sir** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith:**

1. Yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y broses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd ym Môn.
2. Yn awdurdodi swyddogion i gael cyfnod i asesu'r opsiynau o ran dyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd yn y sir er mwyn paratoi a gwerthuso opsiynau posib ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd 2019.

**Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar Ionawr 13, 2014, cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Amlinellol Strategol Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes, sef rhaglen 15 mlynedd i foderneiddio'r ddarpariaeth addysg ym Môn. Mae'r rhaglen wedi ei rhannu i 4 band ac roedd Band A yn 6 mlynedd o hyd (2013-19) ac mae Band B o leiaf yn 5 mlynedd o hyd.

Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017, cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn Raglen Amlinellol Strategol y Cyngor ar gyfer Band B sef rhaglen 5 mlynedd i foderneiddio'r ddarpariaeth addysg ym Môn. Penderfynwyd:

- Cymeradwyo moderneiddio ysgolion cynradd ac uwchradd, a hefyd bod ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un campws neu ysgolion 3-16/3-18 oed;
- Cymeradwyo cyfraniad yr Awdurdod Lleol o thua £18 miliwn tuag at Raglen Band B;
- Cymeradwyo'r opsiynau a amlinellir yn Achos Economaidd y RhAS, a disgwyl dadansoddiad manwl pellach yn yr achos busnes manwl sydd i ddilyn;
- Parhau i gefnogi'r achos dros newid a gyflwynwyd trwy'r rhaglen moderneiddio ysgolion a'r gyrwyr dros newid.

Yr ardaloedd dan sylw ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth addysg oedd Llangefni, Amlwch, Lligwy a Seiriol.

Yn unol â'r cyfansoddiad, gofynnodd swyddogion i'r Pwyllgor Gwaith am ganiatâd i gychwyn y broses ymgynghori. Yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2018, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn bod swyddogion i gychwyn "y broses o ymgynghori yn ardaloedd Band "B" dros y 12 mis nesaf".

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Roedd 7 opsiwn wedi eu cynnwys yn y ddogfen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen o ran y ddarpariaeth addysg uwchradd yn y sir. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Band B a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Gorffennaf, 2017. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Arall** | Ddim yn berthnasol |


| **FF - Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad 1 – Adroddiad ar yr ymgysylltu |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| --- |
| 1. Rhaglen Amlinellol Strategol Band B (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017.<br>2. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 31 Ionawr 2014.<br>3. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 8 Rhagfyr 2017.<br>4. Dogfen ymgysylltu |

**SWYDDOGOL –** ***OFFICIAL***

**ADRODDIAD AR YR YMGYSYLLTU – Y DDARPARIAETH ÔL 16**
***REPORT ON THE ENGAGEMENT – POST 16 PROVISION***

**16 Tachwedd – 16 Rhagfyr 2018 / 16** ***November – 16 December 2018***




**CYNGOR SIR YNYS MÔN /** ***ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES /** ***LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| Rhif | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | PWRPAS | 3 |
| 2. | Y BROSES YMGYSYLLTU | 3 |
| 3. | YR YMATEB | 3 |
| 4. | RHESYMAU DROS NEWID | 4 |
| 5. | CEFNDIR | 4 |
| 6. | OPSIYNAU GYNIGWYD | 5 |
| 7. | CANFYDDIADAU | 6 |
| 8. | YMATEBION O YSGOL UWCHRADD BODEDERN | 6 |
| 9. | YMATEBION O YSGOL UWCHRADD CAERGYBI | 7 |
| 10. | YMATEBION O YSGOL GYFUN LLANGEFNI | 11 |
| 11. | YMATEBION O YSGOL DAVID HUGHES | 13 |
| 12. | YMATEBION O YSGOL SYR THOMAS JONES | 16 |
| 13. | YMATEBION GAN GRŴP LLANDRILLO MENAI | 19 |
| 14. | YMATEBION ERAILL | 20 |
| 15. | ADBORTH O'R AROLWG AR LEIN | 23 |
| 16. | ARGYMHELLIAD | 25 |

## 1. PWRPAS

Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu gyda rhanddeiliaid fel rhan o'r broses o adolygu'r ddarpariaeth ôl-16 ym Môn. Pwrpas yr ymgysylltiad oedd casglu sylwadau a syniadau rhieni, disgyblion, staff, llywodraethwyr, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas â chynlluniau moderneiddio addysg ôl-16 ar gyfer Môn. Dylid nodi nad yw ymgysylltiad yn ddisgwyliad yn ôl y Cod Trefniadaeth Ysgolion Yr ysgolion oedd yn rhan o'r adolygiad hwn oedd:

**Ysgol David Hughes**
**Ysgol Gyfun Llangefni**
**Ysgol Syr Thomas Jones**
**Ysgol Uwchradd Bodedern**
**Ysgol Uwchradd Caergybi**

## 2. Y BROSES YMGYSYLLTU

Ymgysylltodd y Cyngor gyda nifer o randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgysylltu sef rhwng 19 Tachwedd 2018 at 16 Rhagfyr 2018. Roedd 3 prif ffurf i'r ymgysylltu sef:

1. Sesiynau galw fewn - cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu ar ffurf sesiynau galw fewn gyda rhanddeiliaid e.e. disgyblion, athrawon, llywodraethwyr a rhieni fel a ganlyn:

| Ysgol | Dyddiad | Amser |
|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd Bodedern** | **27/11/2018** | **4.30yp-7.30yh** |
| **Ysgol Uwchradd Caergybi** | **28/11/2018** | **4yp-7yh** |
| **Ysgol Gyfun Llangefni** | **3/12/2018** | **4yp-7yh** |
| **Ysgol David Hughes** | **5/12/2018** | **4yp-7yh** |
| **Ysgol Syr Thomas Jones** | **6/12/2018** | **4yp-7yh** |

   Manylir ar y adborth roddwyd yn rhannau 8 i 15 o'r adroddiad hwn.

2. Llythyrau ac e-byst gan randdeiliaid
3. Arolwg ar lein

## 3. YR YMATEB

Cafwyd ymatebion fel a ganlyn:

| Gweithgaredd | Pwy gyfrannodd |
|---|---|
| Sesiynau gyda'r disgyblion<br>Sesiynau gyda'r staff<br>Sesiynau galw fewn gyda rhanddeiliaid | Cofrestrodd <u>485</u> o randdeiliaid yn y sesiynau yma.<br>Cofrestrodd <u>102</u> o randdeiliaid yn y sesiynau yma.<br>Cofrestrodd <u>170</u> o randdeiliaid yn y sesiynau yma.<br>Roedd y rhanddeiliaid yn cynnwys:<br>Staff<br>Llywodraethwyr<br>Rhieni/Gwarcheidwaid<br>Cynghorwyr Tref a Chymuned<br>Aelodau etholedig<br>Trigolion lleol oedd â diddordeb<br>Rhanddeiliad sydd yn defnyddio'r adeiladau<br>Disgyblion |

| Gweithgaredd | Pwy gyfrannodd |
|---|---|
| Llythyrau ac e-byst gan randdeiliaid | Derbyniwyd 24 lythyr/ e-bost gan y rhanddeiliaid canlynol :<br>Penaethiaid<br>Rhieni<br>Trigolion Lleol<br>Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith<br>Cynghorau Tref a chymuned yr ardal<br>Cadeiryddion Cyrff Llywodraethol yr ysgolion<br>Undebau Aelodau staff<br>Cyn ddisgyblion |
| Arolwg ar lein | Cyfrannodd 472 o randdeiliaid eu barn drwy ddefnyddio'r arolwg ar lein. Cynigwyd rhai opsiynau hefyd. |

**4. RHESYMAU DROS DEWID**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen o'r enw "Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant" ym mis Medi 2008, yn herio cynghorau, colegau addysg bellach a phartneriaid i adolygu eu darpariaeth ôl-16 ac i ystyried sut i'w thrawsnewid fel ei bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Yn 2011 cafodd yr her ei gynnwys yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Roedd Llywodraeth Cymru am i'r rhai sy'n gweithio yn y maes addysg ôl-16 yn benodol, i:

- Ehangu'r opsiynau sydd ar gael i fyfyrwyr yn 14-19 mewn ffordd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer yr ystod lawn o lwybrau sy'n agored iddynt ac sy'n parchu gwahanol arddulliau dysgu'r myfyrwyr hynny.
- Lleihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen trwy lefelau uwch o gydweithio i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm.
- Symud i ragoriaeth ar draws rhwydweithiau o ddarparwyr, gan adeiladu ar y cynnydd a wneir gan ddarparwyr unigol wrth godi ansawdd rheolaeth sefydliadol a phrofiad dysgu myfyrwyr.

Ers 2013, mae'r Cyngor wedi sefydlu Partneriaeth Ddysgu ôl-16 gyda Gwynedd a Grŵp Llandrillo-Menai ac mae'r Bartneriaeth Ddysgu yn derbyn cyfrifoldeb am gomisiynu darpariaeth ôl-16 i gwrdd â gofynion cwricwlwm a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Er bod y Bartneriaeth Ddysgu ôl-16 wedi llwyddo i resymoli'r ddarpariaeth AS a Lefel A nid yw'r drefn gyfredol yn gynaliadwy o safbwynt bod costau teithio yn cynyddu a mae maint dosbarthiadau yn fach. Ar hyn o bryd mae gormod o ddosbarthiadau gyda niferoedd y disgyblion yn fach. Yn 2018 roedd 73% o ddosbarthiadau Lefel A ar draws y sir gyda dosbarthiadau o 9 neu lai mewn nifer.

Yn yr hinsawdd gyllidol bresennol nid yw hyn yn hyfyw, yn gost effeithlon nac yn gynaliadwy. Yn ychwanegol, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau sydd dim yn hyfyw mae disgyblion yn treulio cyfnodau rheolaidd o amser yn teithio o un ysgol i'r llall.

O ganlyniad mae angen adolygu dyfodol addysg ôl-16 o fewn y sir. Dylid nodi bydd unrhyw benderfyniad ar y ffordd ymlaen yn effeithio'n uniongyrchol ar lefydd dros ben yn y 5 ysgol uwchradd ac ar unrhyw gynlluniau arfaethedig i sefydlu ysgol pob oed / ysgol ardal 3-16 neu 3-18.

**5. CEFNDIR**

Ar ôl cael ei ethol yn 2017, mae'r Cyngor presennol wedi gosod cyfeiriad i'w gwaith drwy gyhoeddi ei fwriadau yng Nghynllun Sir Ynys Môn 2017-2022.

**Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022**
Mae cynllun Cyngor Ynys Môn yn gosod blaenoriaethau'r Awdurdod. Un o'r blaenoriaethau a gynhwysir yng nghynllun 2017-2022 yw 'Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial hirdymor'. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn datgan y gwneir hyn yn y ffyrdd a ganlyn:

**Addysg a Sgiliau**
**Byddwn yn parhau i godi safonau mewn addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.**

1. Parhau gyda'n rhaglen moderneiddio ysgolion drwy gyhoeddi strategaeth diwygiedig a fydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd hirdymor addysg gynradd ac uwchradd ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gampysau dysgu 3-18 mewn lleoliadau penodol.
2. Cwblhau'r gwaith ar Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch, ardaloedd Seiriol a Llangefni.
3. Cynyddu'r nifer sy'n ymgeisio am rolau arweinyddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gyflwyno rhaglen fewnol a fydd yn adnabod ac yn datblygu arweinyddion ysgol pellach.
4. Gweithio gyda phartneriaid i gynnig y cyfleoedd gorau mewn addysg a sgiliau ar gyfer ein pobl ifanc.

I gyd-fynd â hyn, mae'r Awdurdod wedi paratoi Dogfen Cyflawni Blynyddol. Yn y ddogfen honno ar gyfer 2018 – 2019, gosodir y canlynol fel nodau i'w cyflawni:

**Addysg a Sgiliau**
1. Drafftio, ymgynghori ac yn mabwysiadu strategaeth moderneiddio ysgolion newydd. Bydd yn amlygu'r pwysigrwydd o ddatblygu amgylcheddau dysgu newydd i bwrpas gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau a chyrhaeddiad ein plant dros y blynyddoedd i ddod. Bydd ffocws cynnar ar ddatblygu'r model addysgol yn nalgylch Amlwch.
2. Gweithio ar gwblhau'r Ysgol newydd yn Niwbwrch – Ysgol Santes Dwynwen, fel ei fod yn adnodd cymunedol cynaliadwy i'r dyfodol.
3. Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar ddyfodol ysgolion cynradd Llangefni a'r cyffiniau, gan sicrhau ein bod yn cyd-weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w gwireddu a chychwyn ar y gwaith o adeiladu.
4. Penderfynu ar ddyfodol addysg yn ardal Seiriol drwy ystyried dyfodol ysgolion Llandegfan, Biwmares a Llangoed.
5. Parhau i anwytho Penaethiaid newydd y Sir drwy gynnig cynhaliaeth a chefnogaeth reolaidd gan hefyd ddatblygu ein Penaethiaid dros dro .Byddwn yn adnabod darpar benaethiaid i'r dyfodol a'u cefnogi hwy drwy gynnig profiadau a chyfleoedd datblygol.
6. Lansio rhaglen newydd Denu Talent Môn eleni fydd yn gyfle i 9 i 10 o bobl 16 oed neu drosodd i ymgymryd â hyd at 12 wythnos o brofiad o weithio gyda'r Cyngor gyda chyflog dros gyfnod yr haf. Bydd hyn yn gyfle gwerthfawr i gael blas ar waith awdurdod lleol modern drwy ymgymryd â phrosiectau a thasgau penodol.

Gweler felly fod y gwaith ymgysylltu o ran y ddarpariaeth ôl-16 yn un o flaenoriaethau'r Cyngor.

## 6. OPSIYNAU GYNIGWYD

Dyma'r opsiynau a gyflwynwyd fel y'u rhestrwyd yn y ddogfen ymgysylltu. Mae'r rhanddeiliaid yn cyfeirio ar rif yr opsiynau fel y'u rhestrwyd yn y ddogfen ymgysylltu:

6.1 Sefydlu Coleg trydyddol llawn – byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd i gyd yn mynd yn ysgolion 11-16. Ni fyddai'r Awdurdod yn rhedeg y Coleg.

6.2 Sefydlu Coleg Chweched Dosbarth / Darpariaeth Ôl 16 allan o un adeilad newydd – byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd i gyd yn mynd yn ysgolion 11--16 a byddai'r Cyngor yn gyfrifol am yr adeilad a'i lywodraethiant.

6.3 Cau 1 ysgol uwchradd a sefydlu Coleg Chweched Dosbarth / Darpariaeth Ôl 16 yn yr adeilad hwnnw a lleoli holl ddisgyblion '6ed dosbarth' y sir yn yr adeilad hwnnw. Mwy na thebyg, byddai'r Awdurdod yn gyfrifol am lywodraethiant yr adeilad.

6.4 Cael 2 leoliad ar gyfer y 6ed sef un uned newydd ac uned 6ed arall mewn ysgol uwchradd- byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16.

6.5 Cael 3 lleoliad ar gyfer y 6ed - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16.

6.6 Cael 4 lleoliad ar gyfer y 6ed - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgol uwchradd arall yn mynd yn ysgol 11-16.

6.7 Cael 2 leoliad ar gyfer y 6ed mewn 2 ysgol uwchradd - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16.

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir mwy o sylwadau yn rhannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn.

## 7. CANFYDDIADAU

7.1 Yn y sesiynau galw fewn, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu gyda disgyblion, athrawon, llywodraethwyr a rhieni. Crynhoir yr adborth o'r sesiynau hynny isod.

## 8. YMATEBION O YSGOL UWCHRADD BODEDERN

8.1 Cynhaliodd y Pennaeth Addysg gyfarfod gyda tua 300 o ddisgyblion i gael eu barn ar yr opsiynau ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

### Ble fyddai lleoliad adeilad y Coleg/ Ysgol i'r 6ed?

- Dibynnu pa opsiwn
- Angen ystyried teithio
- Rhai unigolion yn fodlon teithio ond yn broblem i eraill.

### A fydd disgyblion sydd yn y 6ed dosbarth ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio - ar ôl i'r penderfyniad cael ei wneud?

- Penderfyniad cyn Haf 2019 - Fydd plant sydd yn y system adeg yna ddim yn cael ei effeithio.
- Dibynnol ar ba opsiwn sydd yn cael ei ddewis
- Os oes plant sy'n 6.1, mi fyddan yn gorffen yn y system y dechreuon nhw ar gyfer 6.2 - felly ddim yn effeithio arnynt.

**Barn y disgyblion am opsiwn 6.1 / 6.2 sef Coleg trydyddol neu goleg 6ed dosbarth sy'n cael ei ariannu gan yr Awdurdod:**

- Mae'r disgyblion yn hapus mewn awyrgylch Ysgol efo 6ed dosbarth.
- Canran uchaf mae'r ysgol yn ei ddarparu
- -ardal eang iawn (rhan oren ar fap Ynys Môn.)

**Pwyslais ar yr iaith Gymraeg**

- 6ed dosbarth – pryder am yr iaith wrth uno 6ed dosbarth yr ysgolion /coleg.
- Angen bod yn ofalus – gan bod llawer yn dewis gwneud pynciau yn y brifysgol yn Saesneg – eisiau cadw safonau y Gymraeg yn y 6ed dosbarth er mwyn hybu i ddilyn pynciau yn y dyfodol drwy cyfrwng y Gymraeg.

8.2 Yn y sesiynau galw fewn, cafwyd nifer o sylwadau gan randdeiliaid ac fe'i crynhoir isod:

**Opsiynau**

- Coleg Trydyddol - hwn yw'r opsiwn gorau ar gyfer disgyblion am y dyfodol.
- Disgyblion yn hapus i gadw 6ed mewn ysgol.
- Dylid cadw'r 6ed dosbarth ym Modedern.

**Sylwadau Eraill**

- Awyddus i gael darpariaeth arbenigol ôl-16 yn y coleg trydyddol.
- Adnoddau a lleoliad fyddai'r pryder.
- Agwedd ieithyddol Cymraeg/Saesneg - sut fydd hyn yn cael ei reoli.
- Pryder staffio ond yn gyfle i dynnu'r pwysau mawr oddi ar CA3/4.
- Effeithio gweddill yr ysgol wrth beidio cael 6ed dosbarth.
- Pryder bod y rheini yn mynd i ddechrau eu plant mewn ysgol sy'n cynnal 6ed dosbarth yn barod.
- Effaith yn parhau ar weddill yr ysgol.

8.3 Ni dderbyniwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Bodedern i'r broses ymgysylltu.

## 9. YMATEBION O YSGOL UWCHRADD CAERGYBI

9.1 Cynhaliodd y Pennaeth Addysg gyfarfod gyda cynrychiolaeth o 8 o ddisgyblion i gael eu barn ar yr opsiynau ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

**Nodiadau**

- Yn hoffi nodi bod ffigurau/data yn y cyflwyniad yn gamarweiniol ynghylch ysgol Sir Caergybi (ffigurau ar bynciau fel TGCh, busnes ac iechyd a chymdeithasol).
- Holi a yw disgybl o'i ysgol yn mynychu ysgol arall ar gyfer pwnc penodol – o dan ba ysgol y mae'r canlyniad yn cyfrannu?
- AW – beth bynnag sydd ar waith nawr, rydym yn ceisio ei wella a'i wneud yn well felly bydd eich holl bwyntiau/pryderon yn cael eu hystyried.

**Teithio**

- Yn amlwg, mae'n bell ar gyfer disgyblion y 6ed i fynychu ysgol arall.
- Treulio gormod o amser yn teithio
- Ardal ddifreintiedig ac felly'r rhan fwyaf o 6Y dosbarth disgyblion yn gweithio i ennill arian ar gyfer addysg yn y dyfodol.

- Drwy deithio’n bell, bydd hyn yn cael effaith ganlyniadol ar hyd eu swydd o'u diwrnod à yn draenio'n gorfforol.
- Pryderon economaidd - ni fyddant yn talu i deithio i 6ed ffurflen arall - ni all fforddio à llai o bobl mewn addysg 6edd yng Nghaergybi.

**<u>Pryderon am ddwyieithrwydd</u>**

- Prif iaith yr ysgol yw Saesneg. Felly, os yw’r disgyblion yn cael eu lleoli mewn ysgol arall neu mewn Coleg 6ed dosbarth, byddai'r disgyblion yn teimlo'n anghyfforddus ac yn y lleoliad anghywir.
- Wrth fynychu'r pynciau sy'n cael eu rhannu – sy'n ddosbarth dwyieithog – mwy o siaradwyr Cymraeg yn y dosbarth na siaradwyr Saesneg.
- Mae athrawon yn tueddu i siarad mwy o Gymraeg yn y dosbarthiadau na'r Saesneg ac maent yn tueddu i flaenoriaethu drwy egluro'n fanylach yn y Gymraeg na'r Saesneg ac felly'n cael effaith ar ba mor gyffyrddus yw’r disgybl yn mynychu'r pwnc hwnnw ac mae hefyd yn effeithio ar y berthynas rhwng y myfyriwr a'r athro/athrawes.
- Ddim eisiau i iaith fod yn broblem wrth gael ein haddysgu.
- Anhawster gyda dim ond un coleg / un ysgol gyda phob myfyriwr 6ed – yn cael trafferth i gadw i fyny â'r iaith ac yn teimlo'n anghyfforddus.
- Nodi na fydden nhw eisiau i'r siaradwyr Cymraeg deimlo fel hyn chwaith.
- Gweledigaeth hirdymor □ cynllun y Cyngor □ hyrwyddo pwysigrwydd ysgolion dwyieithog ar draws yr Ynys.
- Enghraifft – Ysgol Cybi – mwy o siaradwyr Cymraeg/dysgu Cymraeg felly byddan nhw'n tyfu i siarad Cymraeg ac yn teimlo'n fwy cyfforddus i siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.
- 2 allan o 8 yn y cyfarfod heddiw yn siarad Cymraeg □ felly mae teuluoedd o Loegr yn dod trwodd yn dal i fod yn broblematig am nad ydynt yn cael yr ymarfer gartref ac felly'n myfyrio ar yr iaith a ddefnyddiant yn yr ysgol.
- Wrth feddwl ymlaen at addysg bellach/Brifysgol Mae'n well gan rai plant wneud pwnc drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd y bydd yn haws i'w gynnal yn y brifysgol. Mae'n bwysig bod dewisiadau dwyieithog ar gael i'r disgybl
- Nodi bod angen i ni gael gwared ar y labeli megis ysgolion Saesneg ac ysgolion Cymraeg a gwthio ysgolion dwyieithog yn eu blaenau □ i wella'r Gymraeg yn y tymor hir – ar gyfer disgyblion sy'n lleol i Gaergybi (er enghraifft; Bodedern) a fyddai'n gwella'r Gymraeg yn Ysgol Caergybi.
- Mae'r sylfaen yno i'r cynradd siarad Cymraeg a byddai hynny'n symud trwodd i’r ysgol uwchradd.

**<u>Cefnogaeth Ychwanegol</u>**

- Yma mae 2 swyddog gofal bugeiliol – Mae dyletswydd i fod yno i'r myfyriwr 6ed pan fyddant dan straen gyda gwaith neu ddim ond eisiau siarad.
- Maent yn rhannu eu problemau ac yn ceisio eu datrys a bob amser ar gael i siarad.
- Addysg yn y 6ed yw’r rhan fwyaf o 2 flynedd bersonol o addysg a'r rhan fwyaf o'r 2 flynedd annibynnol – mae'n bwysig bod rhywun y gallan nhw siarad â nhw.
- Yn y Coleg – ddim yn cael y cymorth hwnnw a dyna pam mae disgyblion yn gadael.
- O ganlyniad pam mae llawer o blant Caergybi yn aros yn yr ysgol i gael y cymorth ychwanegol hwnnw.

**<u>Pwysigrwydd disgyblion y 6ed dosbarth</u>**

- Dysgu’r plant iau/yn eu helpu i ymgartrefu yn yr ysgol.
- Rhedeg clybiau amser cinio fel chwaraeon.

- Rhan fawr o'r ysgol ac i'r plant iau.

**<u>Rhesymau i gadw’r 6ed dosbarth yng Nghaergybi</u>**

- Tref fwyaf
- Mwyaf difreintiedig
- Cymuned fach
- Cyfforddus yn yr amgylchedd
- Byddai'n effeithio ar y dref

**<u>Recriwtio athrawon i’r Coleg 6ed</u>**

- Dewis yr athrawon gorau – byddai hyn yn cael effaith ar yr ysgolion drwy i’r athrawon hynny symud a byddai'n effeithio ar weddill yr ysgol.
- Os cau pob 6ed dosbarth, a chael 1 coleg ar gyfer y 6 disgybl, byddai dewis o 2 goleg – Coleg Menai a Choleg 6ed dosbarth – nid oes dewis i fynd i ysgol/efallai y byddai llai o ddisgyblion yn gallu parhau ag addysg os oedd yn rhaid iddynt ddewis rhwng dau goleg.
- Eisiau ysgol gyda 6ed dosbarth.

**<u>Opsiwn</u>**

- Yn ymwybodol o brosiect Amlwch – os yw ysgol Amlwch yn cau – mae’r adeilad ar gael i wneud Coleg 6ed dosbarth – dim cost adeiladu. Lleoliad delfrydol Amlwch ar gyfer yr holl 4 ysgol arall i deithio i'r coleg. Felly mae'r adeilad yn barod a dim ond cludiant sy'n deg rhwng y lleoliadau i deithio yno.
- Mae'n well ganddynt 2 leoliad ar gyfer disgyblion 6ed dosbarth – opsiwn cynaliadwy.
- Cynaliadwy ar gyfer y dyfodol – arian yno i ehangu a gwella'r ddau leoliad 6ed.
- Opsiwn gorau - o leiaf 3 ysgol i gael 6ed – Caergybi, Llangefni a David Hughes – yn ganolog i Amlwch a Bodedern.
- Mae disgyblion Bodedern yn teithio i Gaergybi – nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg a dylanwadu ar eraill i siarad.

**<u>Crynodeb</u>**

- Mae’n bwysig i ddisgyblion gael y dewis (parhau yn yr ysgol neu'r Coleg) Nid (coleg neu Goleg Menai).
- Ystyried newidiadau sy'n gynaliadwy y tu hwnt i 2-3years.
- Opsiwn 3 ysgol.
- Torrwch i lawr i 2 ysgol os nad yn ddigonol ond o leiaf peidiwch a chau 1 ysgol heb unrhyw reswm penodol.
- Mae’n bwysig bod y 6ed yn aros – ddim yn gallu fforddio mynd i unman arall.
- O ran enw da ysgolion, nid oes gan Ysgol Uwchradd Caergybi'r enw gorau - mae angen profi i bobl eu bod yn well na'r hyn y mae pobl yn ei feddwl.
- Drwy gael Bodedern yn uno efo Caergybi, byddai’n cynyddu'r Gymraeg yn eu hysgol.

9.2 Yn y sesiynau galw fewn, cafwyd nifer o sylwadau ac fe’i crynhoir isod:

**<u>Opsiynau</u>**

- Cadw 3 ysgol gyda 6ed dosbarth - Caergybi, Llangefni ac Ysgol David Hughes.
- Adolygu'r sefyllfa o 3 chweched mewn uwchradd - os dal ddim yn effeithlon cau un chweched arall.
- Credu y dylai'r cyngor newid ar ôl adolygu i weld sut mae pethau wedi gweithio. Bodedern yn gallu ymuno efo Caergybi neu Llangefni.
- Angen cadw 6ed Caergybi - ardal difreintiedig - ddim yn fodlon teithio.

**Sylwadau Eraill**

- Pe bai 6ed Caergybi yn cau - mi fuasai rhieni'r plant yn eu gyrru ar drên i Fangor neu bysai niferoedd o blant sy'n dewis mynd i chweched benderfynu peidio aros mewn addysg.
- Pryderon costau teithio - ardal ddifreintiedig - effeithio ar yr economi.

9.3 Cafwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Caergybi i'r broses ymgysylltu ac mae mae copi o'r ymateb isod:

Rydym yn cytuno bod angen adolygu'r ddarpariaeth ôl-16 ar Ynys Môn ac yn gefnogol i wella safonau, cyfleusterau a chyfleoedd i'r holl fyfyrwyr yn ein cymuned Ynys. Teimlwn yn gryf y dylid lleoli hwb chweched dosbarth / canolfan ragoriaeth chweched dosbarth yng Nghaergybi, gan mai hi yw'r dref fwyaf ar Ynys Môn a bod ganddi fwy na dwywaith poblogaeth yr ail dref fwyaf. Mae gan Gaergybi, sy'n borthladd, hefyd gysylltiadau ffordd a rheilffordd ardderchog sy'n galluogi mynediad o bob rhan o Ynys Môn.

Mae gennym hanes cryf o gyflawni mewn cyrsiau galwedigaethol ôl-16 yng Nghaergybi. Cydnabuwyd nad oedd y rhain wedi'u cofnodi yn y tablau safonau ôl-16 yn y Ddogfen Ymgynghori ar ddarpariaeth ôl-16. Mae nifer y myfyrwyr yn uchel ac mae'r canlyniadau'n rhagorol.

Hoffem weld buddsoddiad mewn darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer pynciau safon uwch i sicrhau gwelliant parhaus mewn safonau, gan gynnig ystod o bynciau academaidd i fyfyrwyr ar Ynys Môn er mwyn sicrhau bod disgwyliadau uchel yn cael eu cefnogi a'u cyflawni. Byddai hyn yn cynyddu niferoedd, gan y byddai myfyrwyr yn llai tebygol o adael yr Ynys ar gyfer addysg ôl-16 a'u dewisiadau pwnc.

Hoffem weld mwy o bynciau'n cael eu cynnig ar y safle, er mwyn lleihau amser teithio myfyrwyr, sydd, yn ein profiad ni, yn cynyddu cyfraddau gadael. Hoffem weld pynciau ychwanegol fel seicoleg, cymdeithaseg ac economeg yn cael eu cynnig ar y safle er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr. Dymunwn i fwy o amser addysgu/gwersi gael ei ddarparu yn y chweched dosbarth, sy'n cyfateb i ysgolion eraill yng Nghymru, gan arwain at gyrraedd safonau uwch.

Gofynnwn i chi ystyried y posibilrwydd o athrawon yn gallu rhannu eu harbenigedd/darparu gwersi CA5 mewn canolfannau (hybiau) yn y model i gefnogi recriwtio a chadw athrawon o safon mewn ysgolion ar y lefel yma.

Mae'n hanfodol bod y cyfle i ddatblygu darpariaeth ddwyieithog yng Nghaergybi yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Adeiladu ar y ddarpariaeth yn Ysgol Cybi, a thrwy hynny sicrhau nad yw'r myfyrwyr o'n cymuned (y dref fwyaf ar Ynys Môn) o dan anfantais o ran gwneud cais am gyflogaeth leol a chael dewis cyfartal a theg.

Byddem yn pryderu y byddai llawer o fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel yn rhoi'r gorau i'w haddysg os nad oedd chweched dosbarth yng Nghaergybi. Byddai costau trafnidiaeth yn ffactor cyfyngol i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm isel er gwaethaf eu gallu a'u huchelgais. Byddai hyn yn gam yn ôl o ran canlyniadau i bobl ifanc a byddai'n atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng amddifadedd a chyflawniad isel.

Mae gennym dîm Bugeiliol cryf yn ein hysgol a'n chweched dosbarth, a ddylai fod yn fodel wrth symud ymlaen yn yr adolygiad o'r chweched dosbarth. Yn ogystal â darparu cymorth gwerthfawr i fwy o fyfyrwyr sy'n fwy agored i niwed nad oes ganddynt lawer o hunanhyder, mae ein tîm Bugeiliol hefyd yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau cyfoethogi ychwanegol i'n myfyrwyr chweched dosbarth er mwyn cefnogi eu ceisiadau i Brifysgol. Byddai cyfleoedd pellach i gynyddu'r profiadau hyn mewn chweched dosbarth mwy, gan greu cyfleoedd newydd i fyfyrwyr a chaniatáu iddynt

gystadlu ymhellach am leoedd mewn Prifysgolion gan gynnwys i Prifysgolion Grŵp Russell. Dylai hyn fod yn rhan o'r weledigaeth ar gyfer darpariaeth ôl-16 ar gyfer Ynys Môn gyfan.

Rydym yn cydnabod y byddai'r hinsawdd ariannol bresennol yn ei gwneud yn bosibl i opsiynau 6.1, 6.2 a 6.3 fod yn llai hyfyw, er y byddai cyfleuster newydd o'r radd flaenaf yng Nghaergybi ar gyfer ein pobl ifanc yn cael ei groesawu.

Cafwyd pleidlais ar opsiynau 6.5 (2 leoliad) a 6.6 (3 lleoliad). Roeddem yn teimlo na fyddai opsiwn 6.7 yn ateb y gofynion.

Canlyniad pleidlais y Corff Llywodraethu yn Ysgol Uwchradd Caergybi oedd mai Opsiwn 6.6 (3 lleoliad chweched dosbarth), oedd y dewis sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd, o'r holl opsiynau cafodd eu hystyried.

Yn olaf, gofynnwn i'r broses hon fod yn un gyflym ac effeithlon, i leihau ansicrwydd i bawb ac unrhyw effaith negyddol gan gynnwys effaith ar niferoedd myfyrwyr ym mhob ysgol ar Ynys Môn.

9.4 Roedd barn un rhiant fel a ganlyn:

- Mae amserlen o 4 wythnos am gyfnod ymgysylltu yn "afrealistig" o fyr ac nad oedd hyn yn rhoi'r argraff fod y Cyngor o ddifrif yn ceisio barn yr amrediad o randdeiliaid restrir yn y ddogfen ymgysylltu.
- Nid oedd y Cyngor wedi sicrhau fod copïau o'r ddogfen ymgynghori ar gael i bawb yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb
- Nid oedd cyflwyniad yn y cyfarfodydd ymgysylltu i gefnogi'r ddadl dros newid
- Nid oedd y Cyngor wedi defnyddio ffigurau amddifadedd fel %PYD neu ffigurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i osod y cyd-destun ar gyfer bob ysgol
- Sylwadau Estyn yn gallu dylanwadu ar ganfyddiadau y darllenydd
- Nid oedd pynciau galwedigaethol wedi eu rhestru yn y ddogfen ymgysylltu
- Dim digon o wybodaeth yn y ddogfen ymgysylltu i benderfynu ar opsiwn ffafredig
- Eisiau sicrwydd byddai asesiadau effaith yn cael ei cwblhau pan fydd y Cyngor yn ymgynghori'n statudol ar gynnig

**10. YMATEBION O YSGOL GYFUN LLANGEFNI**

10.1 Cynhaliodd y Pennaeth Addysg gyfarfod gyda 15 o ddisgyblion i gael eu barn ar yr opsiynau ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

### Un adeilad / coleg ar gyfer 6ed (opsiynau 6.1 a 6.2)

- Dosbarthiadau mwy - addysg well - cydweithio gyda mwy o ddisgyblion.
- Sefydliad newydd – broses recriwtio – mwyaf argraffyddol – gorau ar gyfer y swydd → safon arbennig.
- Cael yr athrawon gorau i ddysgu'r pwnc - safonau addysg yn cynyddu.
- Effaith ar lefel staffio'r ysgol.
- Problem gyda'r opsiwn yma –
    - Byddai athrawon "m'ond yn dysgu dau ddosbarth, 10 gwers yr wythnos".
    - Llai o wersi i ddysgu felly yn gweithio yn rhan amser?
    - I osgoi sefyllfa rhan amser - dysgu mewn ysgol rhan o'r wythnos ac yn y coleg rhan arall.
    - Elfen teithio nôl ac ymlaen yn broblem.
- Os sefydlu coleg ar gyfer 6ed (dim o dan reolaeth Coleg Menai) - i gadw gwisg ysgol - teimlad o berthyn yn bwysig.

- Byddai'r opsiwn yma yn "galluogi chi i gal yr ansawdd gorau". Byddai angen paratoi ar gyfer cymysgu/ gwahanol gefndiroedd.
- Hoff iawn o gymysgu efo ysgolion arall - OND cymysgu mewn un wers yn iawn ond dim cymysgu fel ysgol gyfan

**Cau Ysgol Llangefni (Is-opsiwn o opsiwn 6.3)**

- Gellir gwneud hyn gan fod Y.G.Ll. yn ganolog yn Ynys Môn a dosbarthu gweddill y plant rhwng y 4 ysgol uwchradd arall. Ond yn amlwg "nid ydym eisiau i hyn ddigwydd i Y.G.Ll.".
- Syniad o gael un lle canolog yn effeithiol ac yn gwneud synnwyr.

**Cau 2 ysgol Uwchradd (opsiynau 6.4 a 6.5)**

- Cau 6ed Bodedern – agosach i Gaergybi i nhw fynd i'r ysgol neu gyda'r opsiwn i deithio i Llangefni.
- Pryder teithio – effaith ar hyd eich diwrnod.
- 3 ysgol i gynnal 6ed dosbarth - Llangefni, Caergybi ac Amlwch.
- 3 ysgol i gynnal 6ed dosbarth – Llangefni, Caergybi a David Hughes

**Barn ar yr opsiynau**

- Cydnabod bod rhaid neud rhywbeth ond i beidio newid gormod.
- Peidio cau unrhyw ysgol yn gyfan gwbl- effeithio ar bawb nid yn unig y 6ed.
- Lleiaf posib o newid i fod yn gynaliadwy – er mwyn osgoi gormod o newid.
- Ceisio lleihau'r nifer o ysgolion sy'n cael ei amharu /cael effaith arno.

**Effaith colli 6ed dosbarth yn eich ysgol chi**

- 6ed dosbarth yn cynnal nifer o weithgareddau i'r ysgol gyfan.
- Pawb yn edrych ymlaen drwy'r blynyddoedd yn yr ysgol er mwyn mynd i'r chweched.
- Edrych ymlaen at gael fwy o ryddid.
- Tynnu'r syniad o ryddid oddi wrth y disgyblion iau.
- Arfer mynd i'r ysgol - athrawon yn adnabod y plentyn ac yn ymwybodol o allu'r unigolyn.
- Ffactorau mae CSYM angen ei ystyried – bod plant yn edrych i fyny ac yn edmygu'r 6ed.
- Safonau gwell – blaenoriaeth pennaf ydi'r addysg – athrawon gorau.
- Awgrymwyd i siarad gyda Choleg Menai gan fod eu grwpiau lefel A nhw yn llai na'r grwpiau yn yr ysgolion

**Athrawon Ysgol Gyfun Llangefni** (32 yn bresennol)

- Awgrymwyd "symud y ffin o 25 i 20 o ddisgyblion mewn pob dosbarth gan fod dosbarth 0 25 disgybl yn fawr i un athro ac yn llawer o bwysau".
- Byddai teithio ychwanegol pa bynnag opsiwn fydd yn cael ei ddewis a byddai hyn yn cael effaith ar staff.
- Cydnabod fod angen neud rhywbeth - cadw effaith mor isel â phosib ar Ynys Môn.
- Nid oedd y staff "eisiau sefyllfa fel Coleg Meirion Dwyfor ble oedd neb i ofyn am gymorth. Mae cael 1 athrawes llawn amser a 4 athrawes rhan amser yn golygu gwahanol bobl yn dysgu gwahanol bethau / gwahanol ffurf o weithio".
- Mae 3 pwnc Mathemateg sef ystadegau, mecaneg, mathemateg pellach yn golygu 3 pwnc gwahanol o fewn 1.
- Pwy fydd eisiau dysgu dosbarth mawr o 25 – llawer o bwysau.

10.2 Yn y sesiynau galw fewn, cafwyd nifer o sylwadau ac fe'i crynhoir isod:

**Opsiynau**

- Cadw 6ed ym mhob ysgol ac ystyried gwersi ar lein yn well.
- Angen o leiaf 3 ysgol gyda chweched dosbarth - Caergybi, Llangefni ac Ysgol David Hughes.
- Ceisio cadw'r effaith ar gyn lleied o ddisgyblion.
- Hoff o'r syniad o cael ysgol yn top, canol a gwaelod.
- Ddim yn ffafrio mynd i goleg chweched - dosbarthiadau rhy fawr.

**Sylwadau Eraill**

- Safon addysg Ynys Môn yn bwysig - angen newid - cydnabod hynny
- Sefyllfa ar hyn o bryd - ydy plant yn dewis pynciau yn yr ysgol yn hytrach na dewis yn iawn.
- Teimlad ar sefydliad newydd - darparu ar gyfer y byd gwaith a choleg.
- Codi'r bar o bwy sy'n cael dod yn ôl i wneud lefel A.
- Effaith trafnidiaeth ar blant - ddim yn perfformio cystal.

10.3 Ni dderbyniwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Gyfun Llangefni i'r broses ymgysylltu.

## 11. YMATEBION O YSGOL DAVID HUGHES

11.1 Cynhaliodd y Pennaeth Addysg gyfarfod gyda 30 o ddisgyblion (Bl. 13, Bl.12, Bl. 11 a Bl. 10) i gael eu barn ar yr opsiynau ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

- Nid yw'n syniad grêt cau Ysgol David Hughes – mae'r ysgol yn rhwystro plant rhag fynd dros y bont i gael addysg.

- Byddai 90% o'r disgyblion yn y cyfarfod yn dewis mynd i Ysgol Friars os fyddai Ysgol David Hughes yn cau.

- Roedd "1/3 o blant Sir Fôn yn mynychu [6ed] David Hughes. Byddai mwy o ddisgyblion yn symud i Friars a llai ohonynt yn mynd i'r adeilad newydd 6ed - felly pwrpas yr holl beth yn mynd i fod yn wastraff oherwydd bod llawer yn mynd i fynd i ysgol sydd efo 6ed".

- Wrth weld fod gymaint o ddisgyblion yn ffafrio mynd i Friars nag i'r coleg newydd, roedd pryder mawr am yr iaith Gymraeg.

- O ran Coleg 6ed dosbarth, roedd pryder am deithio a chostau teithio. Nid oedd rhai yn ei weld yn deg i deuluoedd y plant dalu am gostau teithio. Roedd "angen ystyried prydau cinio ysgol am ddim".

- Wrth i'r 6ed dosbarthiadau uno, byddai dosbarthiadau'n mynd yn fwy a byddai hyn yn golygu "llai o sylw i'r disgyblion, yn enwedig i'r rhai sydd gydag anghenion a byddai safonau graddau yn gostwng".

- O ran yr opsiwn efo 2 o'r ysgolion (h.y. cael y ddarpariaeth 6ed mewn 2 ysgol uwchradd), teimlad rhai oedd Ysgol David Hughes ac Ysgol Uwchradd Caergybi dylai'r rhain fod. Yna, gellid rhannu'r pynciau i'r 2 ysgol. Mynegwyd pryder am deithio o un pen o'r ynys i'r llall.

- Barn rhai oedd byddai gwireddu'r opsiynau hyn yn cynyddu anhwylder gorbryder i rai disgyblion. Roedd rhai yn fwy cyfforddus o aros mewn ysgol maen nhw'n ei adnabod yn lle dechrau o ddechrau eto. Eu teimlad oedd bod "naws gartrefol mewn ysgol"

- Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd i weithio gyda disgyblion iau sy'n "bwysig ar gyfer rôl chwеched". Byddai hyn yn gallu cael ei golli o wireddu'r opsiynau hyn.

- Roedd rhai'n awgrymu "tynnu'r niferoedd sydd mewn dosbarth o 25 lawr i 20 (cyfartaledd)".

- Pryder staffio – staff yn cael ei diswyddo.

- Byddai unrhyw newid yn cael effaith ar bynciau consortiwm e.e. Addysg gorfforol ac yn torri'r pwnc i fyny.

- Roedd rhai yn pryderu am y ddarpariaeth yng nghanol y symud a sut fyddai'r disgyblion yn cael eu haddysg. O ran unrhyw newid, barn rhai oedd bod y berthynas efo athrawon "yn mynd i fod yn heriol". Y teimlad oedd bod "rhaid cynllunio yn iawn er mwyn sicrhau fod bob dim yn mynd yn iawn".

- Os penderfynwyd gweithredu opsiwn 6.6 sef cael y ddarpariaeth 6ed dosbarth mewn 3 lleoliad, barn y disgyblion oedd i "gael gwared â Bodedern ac Amlwch".

- Nid oedd y disgyblion o blaid opsiwn 6.7 sef cael y ddarpariaeth 6ed dosbarth mewn 4 canolfan gan "nad oedd pwynt cau un".

11.2 Roedd barn y 70 aelod o staff oedd yn bresennol a'u cwestiynau fel a ganlyn:

- Cyfle i'r disgyblion neud blwyddyn yn yr ysgol- 'dewch atom ni am flwyddyn' - pwysigrwydd yr AS - gradd ar ben ei hun, llai o ddisgyblion yn gadael ysgol ar ôl As.

- Sylw at ddiswyddiadau - enfawr drwy'r sir - pa bynnag opsiwn mae'n mynd i newid sefyllfa staffio - trafod mwy yn y dogfennau plîs - staffio.

- Ddim yn ffafrio opsiwn 1 na 2 - colegau. Cadw 6ed mewn ysgol. O leiaf 3 ysgol - gadael i'r plant fynd i'w fam ysgol.

- Ddim eisiau neud dim byd efo'r 6ed ar hyn o bryd - disgwyl i weld be sy'n digwydd efo TGAU wan - AW - os rydan ni yn mynd i ddisgwyl - disgwyl bydda ni a fydd hi'n rhy hwyr.

- Os mae 6ed dosbarth yn mynd o un o'r ysgolion - gobeithio bydda chi yn sefydlu model newydd ar gyfer gweddill yr ysgol.

- Un o'r blaenoriaethau Darpariaeth iaith - pwnt cychwynnol -eisiau mwy o ffeithiau iaith yn y ddogfen - nifer o ddisgyblion yn cael ei effeithio. Cyfle ieithyddol. Ffactor rhaid ystyried.

- Coleg trydyddol - ffigyrau 25 mewn dosbarth - neb yn cytuno bydd safonau yn cael ei wneud. Cadw'r safonau yn uchel. Pynciau ymarferol - niferoedd cemeg - tua 12/15 ar y mwyaf. Naid o'r isafswm o 12 i uchafswm o 25.

- Rhieni yn mynd i yrru nhw dros y bont – dechrau nhw efo ysgol sydd efo 6ed yn barod.

- Plant yn dod dros y bont i'r ysgol y mae hefyd. Sgôp hefyd bod nhw'n dod a mwy drosodd i'r ysgol. Llawer o ddisgyblion yn symud i David Hughes ar gyfer 6ed dosbarth yn barod.

- Staffio - colegau - Proses recriwtio - athro gorau. Staff yn symud o'r ysgol i'r coleg chweched - cael effaith ar yr ysgol.

- Dysgu pynciau gwahanol - yn y coleg - fel coleg Meirion Dwyfor - dewis yr athrawon gorau - nhw'n gadael - nid yn unig yn dysgu'r pynciau ma' nhw'n neud fel cemeg - llenwi amserlen gyda phynciau gwahanol.
- Ddim yn ddigonol i gynnal swydd llawn amser - feysydd arbenigol - rhan fwyaf ddim digon i gynnal swydd barhaol swydd llawn amser. Pwnc ddim yn hollol glir.

- Opsiwn o ran - cyd weithio mewn ysgol a choleg.
- Cydnabod bod rhaid gwneud rhywbeth OND dweud yn hunanol iawn – "yn fan hyn ryda ni'n neud yn iawn".
- Cydnabod pwysigrwydd symud ymlaen er mwyn lles y disgyblion - meddwl am ddyfodol disgyblion môn i gyd - cyngor gorau gan yr athrawon sydd yn eu hadnabod orau.
- Symud o ysgol am 5 mlynedd – i 2 flynedd i goleg –cyfnod anodd iawn– gymaint fwy o ddisgyblion sy'n dioddef efo gorbryder – iechyd y disgyblion yn bwysig.

- Sefyllfa Wylfa Newydd– poblogaeth yn mynd i gynyddu – digon o le i'r plant. Amcan fod 200 o blant yn mynd i ddod i'r ynys ar sail Horizon.

- Un opsiwn - un sefydliad yn ysgol David Hughes  llai o gludiant - un daith i'r disgyblion - gofal bugeiliol -adeiladu bloc newydd i'r chweched.

- Un lle yn David Hughes – 6ed dosbarth – persbectif rhiant dod pen arall – addysg Gymraeg. Caergybi a Bodedern – ddim yn debygol gadw un nhw – cludiant – yn wleidyddol haws.
- Yn Ysgol Gynradd Benllech  dewis mynd i ysgol efo chweched - fel persbectif rhiant.

- Un lle ddim yn ddigon – angen o leiaf 2 ysgol. Mynd i gal effaith → ar weddill yr ysgol wrth gal 600 o ddisgyblion 16-18 yn un ysgol.

- Ardaloedd difreintiedig ymhob man nid yn unig yng Nghaergybi.
- 2 leoliad – ddim yn deud na 300 a 300 – haws cael un?

- Meddwl fel athrawes yn yr ysgol tin dysgu ond fel rhiant mewn ysgol arall lle mae dy blentyn yn mynychu.

11.3 Yn y sesiynau galw fewn, cafwyd nifer o sylwadau ac fe'i crynhoir isod:

**Opsiynau**

- Peidio cau YDH - ysgol yn nadu i blant fynd dros y bont i Ysgol Friars.
  Ffafrio cadw 3 ysgol ar agor - Ysgol David Hughes, Llangefni a Caergybi.
- Un opsiwn - sefydlu pob 6ed dosbarth mewn un ysgol -YDH - adeiladu bloc newyddi'r 6ed - ond ddim yn hoff o'r syniad o'r niferoedd - 600 o blant 16-18oed mewn un adeilad.
- Ddim yn hoff o'r syniad o goleg trydyddol na un uned i 6ed dosbarth - eisiau i chweched aros mewn awyrgylch ysgol - profiadau.

**Sylwadau Eraill**

- Cydnabod bod rhaid gwneud rhywbeth - ond siarad yn hunanol - mae'r ysgol yma yn gwneud yn iawn.
- Nifer fawr o ddisgyblion yn dioddef o anhwylder gorbryder - hyn yn mynd i gael effaith meddyliol ar ddisgyblion sydd yn mynd o ysgol i goleg.
- Pryder ieithyddol - dymuno cael fwy o wybodaeth yn y ddogfen nesaf.
- Pryder staffio - dymuno cael fwy o wybodaeth yn y ddogfen nesaf.
- Pwysigrwydd As mewn ysgol - athrawon yn annog disgyblion i drio blwyddyn o AS - adnabod y disgyblion / gwybod eu gallu.
- Anodd meddwl fel athro mewn un ysgol a fel rhiant mewn ysgol arall.

11.4 Ni dderbyniwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol David Hughes i'r broses ymgysylltu.

11.5 Cafwyd ymateb gan riant disgybl yn yr ysgol oedd yn gofyn am i'r ysgol "aros yn agored er mwyn sicrhau parhad safonau gofal ac addysg" oherwydd oedd ofn gan y rhiant byddai hyn yn "amharu ar addysg y plentyn ac ar y graddau byddai'n debygol o gael".

11.6 Cafwyd ymateb gan aelod o staff yr ysgol. Roedd yn dweud fod disgyblion y chweched dosbarth yn cael effaith ar yr holl ysgol drwy:

- weithgareddau fel "mentora cyfoedion, rhedeg clybiau a gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol a helpu gyda nosweithiau agored"
- fod yn esiampl i ddisgyblion eraill.

Ym marn yr aelod staff, byddai cau'r chweched dosbarth yn holl ysgolion uwchradd Môn a cael un ddarpariaeth ganolog i'r chweched dosbarth yn cael "effaith ddwfn" ar ysgolion uwchradd yr ynys byddai'n mynd "tu hwnt i ffactorau ariannol, logisteg a staffio". Roedd o'r farn y dylid cadw "dosbarthiadau'r 6ed sydd yn fwyaf hyfyw" ac y dylid cadw'r chweched dosbarth yn Ysgol David Hughes gan ei fod yn "fawr, yn llwyddiannus yn academaidd ac yn hyfyw yn ariannol". Yn ogystal, roedd y rhanddeiliaid yn meddwl byddai cau'r chweched dosbarth yn Ysgol David Hughes yn golygu byddai disgyblion yn teithio i ysgolion uwchradd ar y tir mawr yn hytrach nag i ddarpariaeth ganolog ar yr ynys. Teimlai y byddai "cadw tair dosbarth chweched a cau dwy yn rhoi cyd-bwysedd rhwng "lleihau gwariant, cadw hyblygrwydd a chadw cymunedau dysgu llwyddiannus".

## 12. YMATEBION O YSGOL SYR THOMAS JONES

12.1 Cynhaliodd y Pennaeth Addysg gyfarfod gyda 30 o ddisgyblion (6ed, bl.10 a bl.11) i gael eu barn ar yr opsiynau ac roedd eu hymatebion fel a ganlyn:

**Ysgol Syr Thomas Jones**

- Pryder y disgyblion ym mlwyddyn 12 oedd eu bod am fod yng nghanol y trawsnewid.
  - Eu teimlad oedd byddai angen cynllun i helpu'r plant rheiny er mwyn rhoi cymorth iddynt ac er mwyn cadw safonau addysg.
- Cafodd yr ysgol fel y mae hi arolwg Estyn arbennig.
- Pryder staffio oedd byddai staff yn colli swyddi.
- Pryder am docyn bws i ddisgyblion dros 16 yn costio £120 am docyn bws
- Mae angen ystyried cludiant ac angen ystyried costau o bob ysgol i wneud y broses yn deg.
- Pryderon teithio - Amlwch yn ogleddol ac yn bellach i ffwrdd o bob ysgol arall ac roedd rhai'n meddwl fod hyn yn eu rhoi nhw mewn anfantais.
- Petai'r opsiwn o goleg 6ed dosbarth yn digwydd, roedd pryder am yr effaith posib ar weddill yr ysgol a bod hyn yn broses cymhleth iawn.
- Manteision 6ed dosbarth
  - Opsiwn Cadw Amlwch a David Hughes – digon o le i ddal nhw.
- NA - Coleg trydyddol - Na (eisiau profiad ysgol dim profiad Coleg Menai) y penaethiaid yn colli rheolaeth o safonau addysg.
- Coleg chweched dosbarth (o dan y rheolaeth) - colli cyfleoedd i weithio gyda phlant iau - colli allan i roi ar CV a chais prifysgol. Gweld faint mae 6ed yn cyfrannu tuag at yr ysgol.
  - Colli cysylltiad gydag athrawon.
  - Mwy o blant mewn dosbarth – llai o sylw – graddau yn disgyn.
  - Llai o blant mewn dosbarth - anodd - effeithio ar yr elfen tîm mewn dosbarth.
  - Lleihau'r niferoedd mewn dosbarth o 25 i 20.
- Roedd y disgyblion yn ffafrio – 2 lleoliad 6ed mewn ysgol – cyfle i bobl deithio – ddim yn deg fod disgyblion o ardal Amlwch yn gorfod teithio.
- Angen y cymysgedd o Gymraeg a Saesneg - gallu dewis cyfrwng y pynciau/dosbarthiadau dwyieithog.
- Hawl i'r disgyblion cael y dewis o ba gyfrwng maen nhw eisiau dilyn y cwrs.
- Ella fysa rhieni yn dewis dechrau eu plant nhw mewn ysgol gyda 6ed yn barod.

12.2 Yn y sesiynau galw fewn, cafwyd nifer o sylwadau ac fe'i crynhoir isod:

**<u>Opsiynau</u>**

- Yn erbyn coleg trydyddol a choleg chweched dosbarth - dymuno profiad ysgol nid coleg.
- Ffafrio cadw 3 ysgol gyda 6ed dosbarth - angen neud yn siŵr fod dwyieithrwydd ym mhob ysgol nid label 'ysgol Gymraeg' a 'ysgol Saesneg'.Cadw Amlwch - bellach i ffwrdd o bob un arall.

**<u>Sylwadau Eraill</u>**

- Cydnabod bod rhaid gwneud rhywbeth i wella addysg lefel A ar Ynys Môn.
  Pryder staffio- athrawon yn cael ei diswyddo - broses anodd.
- Pryder teithio yn bell o Amlwch - ddim yn agos i ddim un ysgol arall ar yr ynys.
- Pryder am y plant sydd yn mynd i fod yng nghanol y newid.
- Pryder bod rhieni am ddechrau eu plant mewn ysgol gyda 6ed dosbarth yn barod. Os penderfynir gwneud ysgol gydol oes yn YSTJ 3-18 – byddai'r gost yn llai yn y pendraw.

- Angen ystyried adeilad YSTJ - angen gwario yn ariannol ar adeilad YSTJ i'w wneud yn gynaliadwy ar gyfer y disgyblion iau.

12.3 Cafwyd ymateb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Syr Thomas Jones i'r broses ymgysylltu ac mae copi o'r ymateb isod:

**YMGYSYLLTU – Y DDARPARIAETH OL-16**
**YMATEB CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL SYR THOMAS JONES**

Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen ymgysylltu a'r sesiynau galw heibio a gynhaliwyd yn yr ysgol hoffai aelodau corff llywodraethol yr ysgol gynnig y sylwadau isod fel ymateb i'r ymgysylltiad. Mae ein hymateb yn gryno ac yn ymgais ar gyfleu barn y corff ar yr hyn sydd orau, dan yr amgylchiadau heriol, ar gyfer sicrhau dyfodol llewyrchus i bobl ifanc ardal Amlwch ac Ynys Môn. Dylid ystyried y pwyntiau isod yng nghyd-destun yr ymgysylltiad ar ysgolion ardal Amlwch yn ogystal.

**1. Dyfodol Addysg Ol-16**

1.1. Mae'r corff yn cydnabod sefyllfa gyllidol ddyrys y cyngor a'r ysgolion ac yn llawn ymwybodol o'r gwasgu sydd ar y grant ol-16.

1.2. Mae daearyddiaeth Ynys Môn yn awgrymu'n gryf pe byddai newid i'r ddarpariaeth yn golygu lleihau nifer y safleoedd y dylid ystyried cadw darpariaeth yn YSTJ er mwyn gwasanaeth ardal eang y Gogledd Ddwyrain.

1.3. Mae'r safonau a'r profiadau y caiff myfyrwyr y 6ed yn YSTJ dros y blynyddoedd diwethaf yn gadarn ac os ydi safonau yn brif yrrwr dros adolygu'r ddarpariaeth yna dylai YSTJ barhau i ddarparu.

1.4. Mae croes gysylltu amlwg rhwng yr ymgysylltiad hwn a'r ymgysylltiad am ysgolion ardal Amlwch. Gallai gwneud newidiadau i'r naill gaiff effaith andwyol ar y llall. Nid ydym yn credu bod gwaith digonol wedi'i wneud i ystyried hyn ac o'r herwydd ni ddylai unrhyw opsiynau ffurfiol gael eu cyflwyno i ymgynghori arnynt hyd nes bod astudiaeth fanwl wedi'i gwblhau.

1.5. Ni fyddai diddymu darpariaeth ol-16 yn ardal Amlwch yn cynorthwyo'r gwaith o geisio codi uchelgais pobl ifanc mewn tref ac ardal difreintiedig. Mae edrych i fyny ar fyfyrwyr 6ed dosbarth wrth ddatblygu yn arf bwerus yn y frwydr hon ac yn un o'r ffactorau allweddol pam fo YSTJ yn llwyddo yn ein barn ni.

1.6. Mae manteision amlwg i gynnal 6ed dosbarth yn YSTJ os bydd penderfyniad i droi'r ysgol yn ddarparwr gydol oes. Mae addysg ol-16 ar safle'n allweddol i'r dilyniant addysgiadol. (Gweler ein hymateb i'r ymgysylltiad arall)

1.7. Mae'r arolwg ar lein yn gofyn i bawb gytuno neu anghytuno gyda datganiadau penodol ar opsiynau gwahanol ond nid ydym o'r farn bod digon o dystiolaeth ac ymchwil i effaith yr opsiynau amrywiol ac felly nid yw'r corff yn gallu ymrwymo i ddim un opsiwn.

1.8. Hyd yma nid oes astudiaeth o ran rhesymoli'r ddarpariaeth ar draws yr ynys mewn ffordd gyllideb a rhesymegol wedi digwydd er mwyn gweld os oes posib gwneud arbedion, cwtogi a rhannu'r baich. Mae'r cynllunio strategol wedi bod fwy ar sail ymateb i angen mewn ffordd anstrategol, tymor byr.

1.9. Mae blas drwy'r ddogfen mae YSTJ yw'r broblem lle mewn gwirionedd diffyg niferoedd pobl ifanc oed 16 i 18 yw'r broblem. Ni ddylai gael ei ymdrin ag o mewn ffordd lleol gan bod gan pob person ifanc yr un hawl a'r person ifanc nesaf i lawr y ffordd. Mae angen ymateb strategol sydd yn deg ar bawb ac sydd yn gweld tu hwnt i'r sefyllfa bresennol a'r atebion sydd yn rhoi arbedion cyllidol cyflym yn y byr dymor. Mae angen adnabod y patrymau o ran safonau, niferoedd disgyblion, prosiectau diwydiannol mawr, ardaloedd twf, patrymau adeiladu tai, gwybodaeth am y sector fusnes, materion teithio ac ati.

1.10. Mae'r corff yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau aeddfed pan fo'r wybodaeth yn glir ac yn gywir a phan fo astudiaethau effaith cadarn ac achosion busnes cadarn ar gael.

12.4 Cafwyd ymateb gan aelod o staff yr ysgol oedd yn dweud am yr ysgol:

1. “Rydym yn ysgol ofalgar lle ble mae'r disgyblion yn dymuno dilyniant o TGAU i lefel A o fewn ei bro naturiol.

2. Yn ddaearyddol, rydym ymhell i ogledd yr ynys, felly dylsem wasanaethu ein hardal ni. Yn ogystal mae gennym y potensial i wasanaethu ardal ehangach yng ngogledd/canol yr Ynys (tebyg i hen ffiniau'r sir cyn dyfodiad Bodedern.)

3. Safonau - mae safonau addysgu uchel yma, ac mae hyn wedi'i gydnabod. Nid oes llawer yn gollwng ein pynciau yng nghyfnod lefel A sy'n destiment o'i boddhad cyffredinol

4. Adborth y disgyblion sy'n teithio i ddarparwyr eraill yw bod maint rhai dosbarthiadau yn rhy fawr (dros 30 disgybl) sy'n effeithio ar safonau yn y pynciau hynny.

5. Effaith ar y gymuned - mae Amlwch yn gymuned ddifreintiedig lle gwelir yr ysgol yn gyflogwr pwysig. Byddai tynnu'r chweched oddi yma yn gwanhau'r ysgol a'i ddylanwad o fewn y gymuned.

** Un awgrymiad teg a wnaed oedd cynnig 3 safle chweched ar yr Ynys ar ffurf triongl, hefo ninnau fel y darparwr yng ngogledd y sir. Credaf y byddai hyn yn decach yn ddaearyddol ac yn sicrhau gobeithio y byddai mwy o blant yn dychwelyd i addysg 6ed dosbarth ar draws yr Ynys.”

12.5 Cafwyd ymateb gan randdeiliad yr ysgol oedd yn gofyn:

“Pam nac ydi adroddiad Estyn 2018 yn cael ei argraffu ar gyfer y ddogfen presennol, ydi tystiolaeth adroddiad Estyn 2013 yn rhoi argraffiad presennol o ysgol uwchradd YSTJ Amlwch ai chanlyniadau.

Rhaid sylweddoli o dan arweiniaeth modern Mr Bayley y bod yr ysgol yn cystadlu yn gryf ac bod canlyniadau presennol yn awgrym bod yr ysgol yn symud yn ei blaen yn academaidd ac hefyd mewn elfennau eraill yn cynnwys chwaraeon, adloniant ac eraill.”

12.6 Roedd rhanddeiliad arall yn dweud ei bod “yn erbyn i chi gau YSTJ oherwydd dydi o ddim yn deg disgwyl i blant deithio o'r ardal i ysgolion eraill. Mae gen i deulu yn yr ardal sydd wedi bod i'r ysgol a bysa gorfod mynd i rywle arall wedi cael effaith arnyn nhw gan fysa eu diwrnod yn hir. Felly mae yr yn peth yn wir am gau chweched dosbarth. Bysa raid i blant deithio i David Hughes neu Caergybi sydd ddim yn neud sens ac oedd yr ysgol di dod yn gyntaf flwyddyn diwetha ac ail blwyddyn yma sy n well na David Hughes a Caergybi. Cofiwch hynny cyn gwneud penderfyniad”.

12.7 Ysgrifennodd rhanddeiliad arall “i wrthwynebu eich bwriad i gau Chweched dosbarth Ysgol Syr Thomas Jones. Mae gogledd yr ynys yma'n marw ac bydd hyn yn floedd enfawr i'r ardal ac un cam agosach at gau yr ysgol yn gyfangwbl. Bydd nifer o blant yn dewis peidio dilyn llwybr addysg bellach, a'i gobeithion am ddyfodol disglair yn diffodd. Mae hi'n amser i'r cyngor gydnabod fod Ynys Môn yn estyn i'r gogledd o Langefni. Mae Amlwch yn ardal tlawd, wedi ei dagu o arian ers blynyddoedd er mwyn ehangu ardaloedd eraill. Beth am symud Chweched dosbarth gweddill ysgolion Môn i Amlwch? Neu gau Bodedern? Rhowch gyfle i Amlwch. Lladdwch ein ysgolion ac fe laddwch ein cymunedau bach , ein gobaith ac ein iaith. Mae eich bwriad yn anfoesol a chywilyddus. Nid yw polisïau dinasoedd a threfi mawr yn gweithio i ardaloedd gwledig. Dylia chi fod yn ein amddiffyn dim bygwth ein dinistrio”.

## 13. YMATEBION GAN GRŴP LLANDRILLO MENAI

13.1 Yn ogystal â threfnu cyfarfodydd gyda’r pum ysgol uwchradd ar yr ynys, trefnwyd cyfarfod gyda Choleg Llandrillo Menai gan eu bod nhw yn ddarparwr addysg ôl-16 ym Môn. Roeddent

yn "croesawu'r cyfle i gyfrannau i'r drafodaeth parthed opsiynau ôl-16 yn Ynys Môn gan fod rhesymoli addysg ôl-16 wedi bod yn flaenoriaeth inni ers sawl blwyddyn bellach ac rydyn yn croesawu bod Ynys Môn yn gyrru'r agenda ymlaen gyda brwdfrydedd".

Er hynny, roeddent yn siomedig "na chawsom gyfrannu i'r ddogfen ymgysylltu fel aelod o Bartneriaeth Ddysgu ôl-16 Gwynedd a Môn".

Wrth ystyried yr opsiynau gynigir yn y ddogfen, fel sefydliad byddem yn barod iawn i weithio gyda'r Cyngor i edrych ar drefniant allai alluogi opsiwn 6.1 neu 6.2 gael ei chyd-leoli ar dir y Grŵp yn Llangefni.

Byddai cyd-leoli ar Gampws Coleg Menai yn Llangefni yn cynnig mynediad parod at labordai proffesiynol y Ganolfan Dechnoleg Fwyd ynghyd â gweithdai diwydiannol sy'n cynnwys y dechnoleg ddiweddaraf, gan gynnwys roboteg, ar gyfer pynciau gwyddonol a Pheirianyddol.

Yn ogystal a'r manteision hyn, mae yna nifer o fanteision sydd yn cael ei rhestru o dan yr opsiynau eraill, 6.3 i 6.6, y teimlir dylid cael ei cynnwys fel manteision ar gyfer Trydyddol. Mae angen hefyd ymhelaethu ymhellach y cyfleon ddaw yn sgil strwythur trydyddol, sef cynnig mynediad hawdd at bynciau galwedigaethol a rhannu'r adnoddau y cyfeirir atynt uchod wrth gydleoli yr uned 6ed dosbarth ar gampws Llangefni.

Gyda hyn byddem yn amlwg yn dymuno i ysgolion y Sir ynghyd â swyddogion y Sir fod yn rhan annatod o lywodraethiant unrhyw fodel ar y cyd gyda Grŵp Llandrillo Menai – byddai hyn yn rhywbeth y byddem yn awyddus iawn i drafod ymhellach ar y cyfle cyntaf.

Mater arall sydd angen ei atgyfnerthu a'i bwysleisio fel rhan o'r ymgynghoriad pellach yw'r ffaith y byddai strwythur trydyddol yn sicrhau a chadarnhau dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg hyfyw ar gyfer pob Pwnc.

Yn ychwanegol, credwn bod angen rhannu gwybodaeth gyda rhan-ddeiliad o sut mae canlyniadau TGAU a Lefel A, yn genedlaethol, yn gwella ar draws yr holl ddangosyddion ble mae yna ysgolion 11-16 a cholegau 6ed dosbarth yn rhan o broses drydyddol.

Wrth symud ymlaen mae Grŵp Llandrillo Menai yn awyddus iawn i rannu pa bynnag ddata a gwybodaeth sydd gennym parthed canlyniadau ac ansawdd y ddarpariaeth Drydyddol sydd yn bodoli eisoes yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd. Gallwn hefyd gynnig enwau cyn ddisgyblion addas all gynnig llais y dysgwyr o safbwynt dysgwyr sydd wedi bod trwy addysg drydyddol.

Fel sefydliad mae gennym gysylltiadau cryf gyda sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ble mae yna fodelau llwyddiannus iawn o addysg ôl-16 mewn sefyllfa trydyddol. Byddem yn awyddus iawn i drefnu ymweliadau gyda Choleg 6ed Glannau Dyfrdwy a 6ed Glyn Ebwy i swyddogion ac aelodau perthnasol o'r Cyngor petai hynny yn ddymunol.

Hyderir y gall y sylwadau hyn gael eu hystyried yn llawn wrth edrych i ddatblygu'r broses ymgynghorol a'r opsiynau ôl-16 ac edrychwn ymlaen i fod yn rhan rhagweithiol wrth iddi symud yn ei blaen.

## 14. YMATEBION ERAILL

14.1 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a Grŵp Llandrillo Menai, anfonwyd y ddogfen ymgysylltu at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;

- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol ac Aelod Seneddol
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Cynghorau cymuned
- Ysgol Gyfun Llangefni.

14.2 Derbyniwyd ymateb gan swyddog Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) a dyma'r hyn oedd ganddynt i'w ddweud:

**Ymgysylltiad Cyhoeddus: Adolygu'r Ddarpariaeth Ôl-16, Cyngor Sir Ynys Môn.**

Nid oes gan UCAC farn benodol ar y newid i'r ddarpariaeth ôl-16, hyn yn bennaf oherwydd nad oes consensws ymysg aelodau UCAC ar y ffordd gorau ymlaen, ond hefyd oherwydd bod y ddarpariaeth, ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd yn amrywio drwy'r Sir.

Mae UCAC yn cydnabod bod rhinweddau i leihau'r nifer o sefydliadau sydd yn darparu addysg ôl-16 yn y Sir, ond eto'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd chweched dosbarth i ysgol ar sawl lefel.

Mae'n amlwg bod yna sawl enghraifft o ddarpariaeth chweched dosbarth effeithiol yn y Sir, ac na ddylid o reidrwydd gosbi'r canolfannau hynny oherwydd gwendidau mewn canolfannau eraill, oni bai bod cydsyniad i newid yn amlwg. Ymhellach, mae'n bwysig nodi na ellir mesur llwyddiant chweched dosbarth drwy ddata moel yn unig, yn enwedig o ran y safonau (nid yw'r ddogfen yn adlewyrchu unrhyw elfen o werth ychwanegol wrth drafod canlyniadau) a'r gost.

Yn gyffredinol mae UCAC o'r farn y dylid sicrhau:

1. Bod disgyblion â'r hawl i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg – ac mae tystiolaeth amlwg o golegau trydyddol yn y Gogledd Orllewin lle nad oes cyfle i dderbyn addysg yn y Gymraeg ar y rhan fwyaf o gyrsiau, er gwaetha'r ffaith bod yna 'addysg ddwyieithog' yn swyddogol ar y cyrsiau penodol hynny. Felly, dylid rhoi cefnogaeth swyddogol ac ymarferol i'r egwyddor o bynciau'n cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Bod yr athrawon sydd yn addysgu mewn unrhyw ganolfan chweched dosbarth yn parhau i dderbyn tâl ac amodau athrawon, gan gynnwys y ddarpariaeth bensiwn. Ymhellach, dylai athrawon dderbyn cytundebau llawn amser, parhaol lle bynnag bo hynny'n bosibl.

3. Bod y rheiny sy'n cael eu hapwyntio i swyddi addysgu mewn unrhyw ddarpariaeth ôl-16 yn dod o'r pwll athrawon sy'n cael eu cyflogi yn yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio yn y lle cyntaf drwy weithdrefn apwyntio 'mewnol'. Dylid ond hysbysebu'n allanol o beidio â derbyn unrhyw geisiadau addas o'r 'cylch'.

   Felly, o ran yr opsiynau unigol, mae'n amlwg na fyddwn yn cymeradwyo opsiwn 6.1. Fel arall, oherwydd amrywiaeth barn nid oes modd i ni gynnig unrhyw sylwadau penodol ar yr opsiynau eraill.

   Mae UCAC yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno sylwadau ac yn edrych ymlaen at drafod unrhyw ad-drefnu ymhellach.

14.3 Cafwyd ymateb gan riant disgybl oedd yn dweud eu bod yn “credu bod opsiynau 6.6 a 6.7 yn rai a ellid eu dygymod gan y cymunedau sydd yn defnyddio y ddarpariaeth ol-16 presennol.

Mae disgyblion 6ed Dosbarth yn cael eu cludo i ac o’r ysgolion ynghyd a’r disgyblion blynyddoedd 7-11 yn bresennol. Petai un adeilad/canolfan ol-16 yn cael ei greu, byddai costau cludo i’r un man hyn yn ychwanegol i’r costau o gludo disgyblion blynyddoedd 7-11 bob ysgol unigol, gan arbed dim arian yn y pen draw.

Rhaid sicrhau bod yr ysgolion sydd wedi cael canlyniadau da, gyda nifer iach o ddisgyblion ac sy’n cynnig y dewis ehangaf/cyfan o bynciau yn parhau i adeiladu eu llwyddiannau ac yn cael eu gwarchod. Mae’r arbenigedd sydd wedi cael ei greu yn yr ysgolion hyn yn elfen bwysig ac felly mae’n hanfodol fod y staff dysgu yn cael y cyfle i barhau gyda’r gwaith da.

Efallai byddai’n bosib i ddisgyblion ol-16 o wahanol ysgolion gael eu gwersi wedi ei gyflwyno drwy ddefnyddio technoleg ‘fideo-gynadledda’, gyda’r athro/tiwtor mewn un lleoliad a’r disgyblion mewn amryw o leoliadau.”

14.4 Cafwyd ymateb gan grŵp o randdeiliaid o ardal Amlwch oedd yn cynnig sylwadau ar yr ymgysylltu ar y ddarpariaeth addysg cynradd ac uwchradd yn ardal Amlwch. Roeddent yn nodi:

- “Eu bod yn hapus â'r lefelau cyrhaeddiad presennol yn ein hysgolion lleol, yn llawn hyder yn yr arweinyddiaeth, y staff a'r cyfleusterau presennol, ac yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor Sir ar hyn o bryd gweithredu.
- Eu bod yn “gwrthwynebu’r DDAU opsiwn fel yr amlinellir ar hyn o bryd yn y ddogfen ymgysylltu”.
- Y “dylai'r ddogfen ymgysylltu hon, ac unrhyw ymgynghoriadau yn y dyfodol, roi llawer mwy o fanylion ar ddadansoddiad cost/budd yr opsiynau arfaethedig (gan gynnwys dadansoddiad ariannol) a bod yn llai cuddiedig/wedi'i deilwra o blaid unrhyw agendâu neu ganlyniadau a waredwyd ymlaen llaw. Wrth wneud hynny, credwn y byddai hyn yn galluogi asesiad mwy agored a theg o'r opsiynau a gynigir, drwy gynyddu ymgysylltiad â'r gymuned a gwella ‘r bartneriaeth drwy fagu hyder ac ymddiriedolaeth rhwng y gwahanol bartïon trwy gydol y broses”.
- Opsiynau ychwanegol “i’w hystyried sef:
  - **Opsiwn 1 -** Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Ynys Môn. Ehangu dalgylch YSTJ i gynnwys Amlwch, Benllech, Moelfre, Llannerch-y-medd, Cemaes, Penysarn, Rhosybol, Llanfechell, Carreglefn fel yr oedd yn hanesyddol.
  - **Opsiwn 2 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Ynys Môn. Ymchwilio'n drylwyr (gyda** CADW a phartïon eraill â diddordeb) yr opsiynau o adolygu statws cofrestredig YSTJ (Gradd II), cynllun campws ac ôl troed i nodi opsiynau ychwanegol neu ddewisiadau eraill posib.
  - **Opsiwn 3 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Môn. Ailddefnyddio ardaloedd o adeilad** YSTJ i gartrefu coleg chweched dosbarth (ar y cyd â'r ymgysylltiad darpariaeth Ôl-16 parhaus) Ail-leoli holl / hanner disgyblion 6ed dosbarth Ynys Môn i Gampws YSTJ. (Adolygu Partneriaethau Cyhoeddus Preifat presennol a phartneriaethau posib y dyfodol gyda Horizon, Grwp Llandrillo Menai ac ati).
  - **Opsiwn 4 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Môn. Adeiladu ysgol uwchradd gwbl** newydd (65% o grant gan Llywodraeth Cymru) yn yr ardal gyfagos neu gerllaw. Ymchwilio i opsiynau ymarferol eraill o ailddefnyddio adeilad presennol YSTJ (gan gynnwys ail-werthu).
  - **Opsiwn 5 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Môn. Adolygu a safoni'r ddogfen** ymgysylltu gyfredol i ail werthuso'n deg opsiynau darpariaeth ysgolion cynradd yn nalgylch gyfan YSTJ (gan gynnwys Moelfre a Benllech) ac nid yn unig ar gyfer is-set ddewisol.


- **Opsiwn 6 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Ynys Môn. Gwerthuso opsiynau cyllido** ychwanegol yn benodol ar gyfer ysgolion cynradd gwledig (grant datblygiad disgyblion, grant ysgolion bach a gwledig, grantiau lleihau maint dosbarth babanod ayyb) neu drefniadau ariannol eraill (benthyciadau tymor hir, morgeisiau, ardollau cymunedol ac ati) ar y cyd â'r cynllun addysg gwledig.
- **Opsiwn 7 - Parhau ag addysg uwchradd yng Ngogledd Môn. Ail-ddatblygu safle Bodedern fel** campws chweched dosbarth ar y cyd ag Opsiwn 1 (uchod) fel rhan o ymgysylltiad darpariaeth Ôl-16.

14.5 Ym marn rhanddeiliad arall, "dim ond un opsiwn tymor hir sy'n hyfyw, sef darpariaeth mewn un ganolfan. Bydd hyn yn sicrhau dosbarthiadau hyfyw, o safbwynt ariannol ac o safbwynt addysgol. Bydd, hefyd, yn sicrhau safon pob pwnc unigol, ac yn golygu cadw golwg ganolog ar yr holl darpariaeth ol-16."
Parhaodd i ddweud: "Ni all yr un o'r opsiynau eraill, (ar wahân i drydyddu, wrth reswm), sicrhau yr uchod. Ymhellach byddai'r opsiynau eraill i gyd yn codi problemau, megis sail dewis ysgolion unigol, effaith ar ysgolion unigol, creu drwgdeimlad a cholli morâl fyddai'n cymryd blynyddoedd i ddiflannu, ynghyd â phroblemau recriwtio staff mwy na'r hyn sy'n bod eisoes".


## 15. ADBORTH O'R AROLWG AR-LEIN

15.1 Cyfrannodd 472 o randdeiliaid yn yr arolwg ar-lein. Cynigwyd rhai opsiynau hefyd.

15.2 Gofynnwyd yn gyntaf beth oedd cyfrifoldeb y rhanddeiliaid ac roedd yr ymateb fel a ganlyn:




15.3 Yna, gofynnwyd os oedd y rhanddeiliaid yn cytuno gyda'r rhesymau i newid y ddarpariaeth ôl-16 yn Môn. Roedd 59.3% yn cytuno ac roedd 40.7% yn anghytuno. Roedd yr ysgol roedd y 472 o randdeiliaid, yn gysylltiedig a hi fel a ganlyn:




15.4 Er bod y mwyafrif o'r rhanddeiliaid yn cytuno gyda'r rhesymau i newid y ddarpariaeth ôl-16 yn Môn, nid oedd mwyafrif o blaid unrhyw un o'r opsiynau gyflwynwyd yn y ddogfen ymgysylltu ac roedd eu hymateb fel a ganlyn:

| Rhif | Opsiwn | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Sefydlu Coleg trydyddol llawn | 12.0% | 88.0% |
| 6.2 | Sefydlu Coleg Chweched Dosbarth / Darpariaeth Ôl 16 allan o un adeilad newydd. Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am yr adeilad. | 18.4% | 81.6% |
| 6.3 | Cau 1 ysgol uwchradd a sefydlu Coleg Chweched Dosbarth / Darpariaeth Ôl 16 yn yr adeilad hwnnw a lleoli holl ddisgyblion '6ed dosbarth' y sir yn yr adeilad hwnnw. | 15.6% | 84.4% |
| 6.4 | Cael 2 leoliad ar gyfer y 6ed sef un uned newydd ac uned 6ed arall mewn ysgol uwchradd - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16. | 16.2% | 83.8% |
| 6.5 | Cael 3 lleoliad ar gyfer y 6ed - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16. | 45.9% | 54.1% |
| 6.6 | Cael 4 lleoliad ar gyfer y 6ed - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgol uwchradd arall yn mynd yn ysgol 11-16. | 33.0% | 67.0% |
| 6.7 | Cael 2 leoliad ar gyfer y 6ed mewn 2 ysgol uwchradd - byddai hyn yn golygu byddai'r ysgolion uwchradd eraill yn mynd yn ysgolion 11-16. | 27.9% | 72.1% |

15.5 Yn ogystal a'r opsiynau uchod, cyflwynwyd 7 opsiwn arall gan randdeiliaid yn yr arolwg ar-lein. Gweler grynodeb ohonynt isod:

**Crynodeb o opsiynau a sylwadau eraill a gyflwynwyd ar-lein**

| | |
|---|---|
| | Ysgol uwchradd newydd |
| | Cadw'r 6ed dosbarth yn YSTJ a symud plant eraill yno |
| | Cau 1 ysgol uwchradd a gwasgaru'r disgyblion i'r 4 arall |
| | Cau 2 ysgol uwchradd a newid un i fod yn goleg 6ed dosbarth ac i'r myfyrwyr eraill o'r ysgol arall gael ei symud i'r 3 ysgol uwchradd sydd ar ôl i leihau llefydd gweigion yn yr ysgolion hyn. Gellir defnyddio'r adeilad gwag i sefydlu coleg trydyddol fyddai ddim yn cael ei redeg gan yr awdurdod. Byddai hyn yn creu fwy o arbedion drwy leihau nifer yr adeiladau a llefydd gweigion. |

| | |
|---|---|
| | Yna, byddai dim ond angen rhoi sylw i'r ôl-groniad cynnal a chadw yn y 3 ysgol uwchradd fyddai ar ô ac uwchraddio'r 6ed dosbarth newydd. |
| | 'Coleg' mewn adeilad parod (dim angen gwario ar adeilad newydd sbon)<br><br>Y 'coleg' yn cydweithio hefo ysgolion er mwyn cynnig swyddi i'r athrawon sydd yn dysgu ar hyn o bryd...fel bod athrawon yn gweithio llawn amser (dros y 'coleg' a mewn ysgolion). Sicrhau eich bod yn talu'r athrawon fel y mae nhw yn cael ei talu ar hyn o bryd.<br><br>Fel enghraifft, rydych yn sôn ar dudalen 20 yn yr ymgynghoriad bod dim ond angen 2 ddosbarth Cemeg ar hyd yr ynys. Felly, o'r herwydd, cyflogi athro a'i secondio fo/hi o'r ysgol am ddiwrnod i ddysgu yn y coleg ar gyfer AS a diwrnod ar gyfer A2. Amserlennu fo fel y bod yr ysgolion yn rhan o'r broses yn ogystal. Mae angen cydweithio - dim tynnu yn erbyn eu gilydd ar gyfer cael datrysiad. |
| | Un Chweched dosbarth yn rhan o ysgol uwchradd bresennol (YDH) |
| | Ymunwch Ysgolion Cynradd ar yr un safle ag Ysgolion Uwchradd - megis Amlwch, Llangefni a Porthaethwy er mwyn creu campws eang sy'n rhoi arbedion ariannol yn ogystal â chyfrannu at drosglwyddo plant o'r cynradd i'r uwchradd mewn ffordd ddidrafferth a llai pryderus i'r plant. |

15.6 Felly, yn ogystal a'r 7 opsiwn newydd gyflwynwyd uchod, mae 7 o opsiynau posib o fewn yr opsiynau gyflwynwyd yn y ddogfen ymgysylltu, sy'n gwneud cyfanswm o 14 opsiwn.

## 16. ARGYMHELLIAD

Er mwyn gwerthuso'r opsiynau, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad ar y broses ymgysylltu ar ddyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd ym Môn.
2. Awdurdodi swyddogion i gael cyfnod i asesu'r opsiynau o ran dyfodol y ddarpariaeth addysg uwchradd yn y sir er mwyn paratoi a gwerthuso opsiynau posib ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd 2019.